Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Tachwedd 2020

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Gwaith Craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Tachwedd 2020

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Siân Gwenllian AS**
Plaid Cymru



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Nick Ramsay AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mark Reckless AS***
Annibynnol

*Etholwyd Mark Reckless i'r Pwyllgor Cyllid fel aelod o Blaid Brexit tan 16.10.2020. Yna cafodd ei ethol i'r Pwyllgor Cyllid ar 4.11.2020 fel Aelod Annibynnol.

# Cynnwys

**Argymhellion ac casgliadau ..... 5**

**1. Cyflwyniad ..... 8**

**2. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20 ..... 11**

**3. Adroddiad Canfyddiadau Archwilio - Y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 ..... 28**

**4. Adolygiad gwerth am arian: Cynllun teithio ..... 32**

**5. Cynllun Blynyddol 2020-21 ac Adroddiad Interim 2020-21 ..... 35**

**6. Amcangyfrif o incwm a threuliau am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022 ..... 40**

**Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar. ..... 55**

**Atodiad B: Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022 ..... 56**

# Argymhellion ac casgliadau

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn adolygu ei ddull o fesur perfformiad, gan sicrhau bod modd cymharu mesurau â blynyddoedd blaenorol ac osgoi unrhyw amwysedd posibl wrth adrodd ar ei ganlyniadau perfformiad yn gyhoeddus. Tudalen 26

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020-21 yn cynnwys manylion am effaith ailstrwythuro'r uwch dîm arweinyddiaeth a'r gweithgareddau a wnaed i wella profiad gweithwyr cyflogedig yn Archwilio Cymru. Tudalen 26

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu penderfyniad yr Archwilydd Cyffredinol i sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio ac yn argymell bod diweddariad ar waith y Pwyllgor yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf. Tudalen 27

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn amlinellu pa gamau a gymerwyd i liniaru colli gwybodaeth sefydliadol a'i fod yn rhoi diweddariad ar oblygiadau'r newidiadau arweinyddiaeth ar strwythurau staffio, amcanion ac unrhyw newid yn ffocws Archwilio Cymru unwaith y bydd y strwythur newydd yn ei le. Tudalen 27

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod RSM UK Audit LLP yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod fersiwn derfynol ei adroddiad Canfyddiadau Archwilio yn cael ei osod gerbron y Senedd yn y dyfodol, a'i fod yn hysbysu'r Pwyllgor am unrhyw broblemau o ran cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan baragraff 35(2), Atodlen 1 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Tudalen 30

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod RSM UK Audit LLP yn diweddaru cyfeiriadau yn adroddiad canfyddiadau archwilio y dyfodol o "National Assembly for Wales Commission" i "Senedd Commission". Ailenwyd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Comisiwn y Senedd drwy rinwedd adran 6 o Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru), a ddaeth i rym 6 Mai 2020, a dylai dogfennau ffurfiol gydnabod hyn. Tudalen 30

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu diweddariad wrth i'r prosiect i adolygu'r cynllun teithio fynd yn ei flaen, gan gynnwys canlyniadau trafodaethau gyda staff a'r Undebau Llafur ar y newidiadau a gynigir, ynghyd â'r amserlenni ar gyfer gweithredu a'r arbedion a ragwelir. Tudalen 34

**Argymhelliad 8.** Gan gydnabod nad yw'n waith archwilio traddodiadol, mae'r Pwyllgor yn croesawu mwy o wybodaeth am waith y prosiect dysgu am COVID. ....................Tudalen 39

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu diweddariad ar arbedion ac effeithlonrwydd yn dilyn yr adolygiad o gyllidebau heblaw rhai cyflog yng Ngwanwyn 2021....................Tudalen 54

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y darperir gwybodaeth bellach am lefel yr arbedion y mae Archwilio Cymru yn ceisio eu cyflawni wrth roi ei swyddogaeth gyflogres ar gontract allanol mewn ffordd wahanol. ..............Tudalen 54

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ddiweddariad ar ddatblygiad rhaglen waith Archwilio Cymru ar gyfer 2021-22, gan gynnwys unrhyw effaith y bydd hyn yn ei chael ar yr Amcangyfrif....................Tudalen 54

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu mwy o fanylion ar sut y bydd yr adnodd o £180,000, a newidiwyd yn 2020-21 o ffioedd i gyllid Cronfa Gyfunol Cymru, yn cael ei ddefnyddio yn 2021-22. ....................Tudalen 54

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu nodyn ar yr effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â dod â gwaith archwilio yn fewnol a sut mae hyn wedi effeithio ar gostau staff Archwilio Cymru. ....................Tudalen 54

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn cadarnhau ei gyllideb ar gyfer Dadansoddeg Data yn 2021-22, gan gynnwys dadansoddiad o'r cyllid o incwm ffioedd a Chronfa Gyfunol Cymru. ....................Tudalen 54

**Casgliad 1.** Yn amodol ar gasgliadau ac argymhellion yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r cyhoeddiadau canlynol a ddarparwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y sesiynau craffu blynyddol:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20;
- Adroddiad Canfyddiadau'r Archwiliad – Y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020;
- Cynllun Blynyddol 2020-21;
- Adroddiad Interim – Asesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Blynyddol 2020-21 yn ystod y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2020;

- Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022........ Tudalen 10

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20. ........ Tudalen 27

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr adroddiad Canfyddiadau Archwilio gan RSM UK Audit LLP, a ddaeth i'r casgliad bod cyfrifon 2019-20 yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru. ........ Tudalen 31

**Casgliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn nodi Cynllun Blynyddol 2020-21 ac Adroddiad Interim 2020-21 ac mae'n fodlon â'r ddwy ddogfen hyn........ Tudalen 39

**Casgliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ag Amcangyfrif 2021-22, sydd ynghlwm yn Atodiad B i'r adroddiad hwn. ........ Tudalen 54

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

**1.** Derbyniodd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (y Ddeddf) Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2013.[1] Roedd y Ddeddf yn parhau â swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru (Archwilydd Cyffredinol) ac yn creu corff newydd o'r enw Swyddfa Archwilio Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru). Roedd hefyd yn nodi trefniadau atebolrwydd a llywodraethu yn ymwneud â'r Archwilydd Cyffredinol a'r Swyddfa Archwilio Cymru.

**2.** Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd allanol statudol ar gyfer y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru, ac ef yw Prif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru a'i Swyddog Cyfrifyddu. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn monitro ac yn cynghori'r Archwilydd Cyffredinol, yn dal ac yn darparu adnoddau ac yn codi ffioedd ar gyfer gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru. Cynrychiolir Swyddfa Archwilio Cymru gan Fwrdd, sy'n cynnwys Cadeirydd anweithredol, aelodau anweithredol eraill, yr Archwilydd Cyffredinol, aelod a benodir o blith y gweithwyr cyflogedig a dau aelod a etholir o blith y gweithwyr cyflogedig.

**3.** Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

## Trefniadau Atebolrwydd a Llywodraethu

**4.** Mae'r Ddeddf yn rhoi nifer o swyddogaethau i Senedd Cymru (y Senedd). O dan Adran 28 o'r Ddeddf, caiff y Senedd wneud darpariaeth trwy Reolau Sefydlog ynghylch arfer y swyddogaethau a roddir iddi gan y Ddeddf, gan gynnwys "dirprwyo swyddogaethau i'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, i bwyllgor neu is-bwyllgor y Senedd neu i gadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath".[2] Yn unol â Rheol Sefydlog 18.10, cafodd y dasg o oruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru ei dirprwyo i'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor).[3]

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
[2] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru
[3] Cofnodion y Pwyllgor Busnes, 1 Hydref 2013

**5.** Cynhaliwyd y gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol mewn dwy ran eleni, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor glywed gan Gadeirydd ymadawol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru a'r Cadeirydd newydd.

**6.** Archwiliodd y Pwyllgor y cyhoeddiadau a ganlyn ar 21 Medi 2020 a chymerodd dystiolaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol, Adrian Crompton, Cadeirydd ymadawol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, Isobel Everett, a swyddog o Archwilio Cymru:

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20;
- Adroddiad Canfyddiadau Archwilio - Y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 (Saesneg yn unig);
- Cynllun Blynyddol 2020-21;
- Adolygiad Gwerth am Arian o drefniadau Teithio a Chynhaliaeth Swyddfa Archwilio Cymru (Saesneg yn unig).

**7.** Manteisiodd y Pwyllgor ar y cyfle hefyd i drafod myfyrdodau wrth ymadael y Cadeirydd ymadawol.[4] Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i Isobel Everett am yr adborth ar ei thymor yn y swydd a'i chyfraniad amhrisiadwy at sefydlu a datblygu Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.

**8.** Ar 2 Tachwedd 2020, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol, Adrian Crompton, Cadeirydd newydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, Lindsay Foyster, a swyddog o Archwilio Cymru ar y cyhoeddiadau a ganlyn:

- Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022;
- Adroddiad Interim - Asesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Blynyddol 2020-21 yn ystod y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2020.

**Casgliad 1.** Yn amodol ar gasgliadau ac argymhellion yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r cyhoeddiadau canlynol a ddarparwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y sesiynau craffu blynyddol:

[4] Llythyr oddi wrth Isobel Everett, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru - Myfyrdodau wrth Ffarwelio, 10 Medi 2020

- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20;
- Adroddiad Canfyddiadau'r Archwiliad – Y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020;
- Cynllun Blynyddol 2020-21;
- Adroddiad Interim – Asesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Blynyddol 2020-21 yn ystod y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2020;
- Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022.

# 2. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20

**9.** Cafodd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20[5] eu cyflwyno gerbron y Senedd ar 19 Mehefin 2020. Paratôdd yr Archwilydd Cyffredinol y Cyfrifon ar gyfer 2019-20 fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol ag Atodlen 1 o'r Ddeddf. Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd ymadawol Swyddfa Archwilio Cymru baratoi Adroddiad Blynyddol 2019-20 ar y cyd, yn unol ag Atodlen 2 o'r Ddeddf.[6]

**10.** Mae'r cyflwyniad i'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn nodi bod swyddogaethau a gyflawnwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn gyson â'r cynllun blynyddol, a bod y blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun hwnnw wedi'u cyflawni i raddau helaeth.[7]

**11.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn amlinellu pedwar amcan trosfwaol Archwilio Cymru, sef:

- Manteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd, ein dealltwriaeth graff a'n safbwynt unigryw
- Cryfhau ein statws fel llais awdurdodol ac annibynnol yr ymddiriedir ynddo
- Dod yn fwy amlwg, dylanwadol a pherthnasol
- Dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt[8]

**12.** Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20 yw'r cyntaf a gyflwynwyd o dan hunaniaeth 'Archwilio Cymru' - yn flaenorol cyflwynwyd yr adroddiad fel cynnyrch Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol. Amlinellwyd y newid hwn mewn llythyr at y Pwyllgor ar 5 Mai 2020.[9] Mae'r cyflwyniad yn nodi:

> "Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol

---

[5] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20
[6] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013
[7] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, tudalen 3
[8] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, tudalen 16
[9] Llythyr oddi wrth Archwilio Cymru, 5 Mai 2020

> ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol."[10]

**13.** Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y dynodiad newydd yn deillio o adolygiad o waith cyfathrebu'r sefydliad:

> "…leading up to the new identity, we undertook a lot of research with our stakeholders, our staff, the public at large, and that told us that we needed to improve the way in which we communicated with them, and, in particular, they told us that we needed to be clearer in our reporting style, shorter, more succinct, more accessible, and also that the multiple identities that we had in our published outputs as Auditor General for Wales and Wales Audit Office often caused some confusion in their minds, and so diluted the impact of our work. So, that really was the main driver for the change to the new identity as Audit Wales, which we felt was clear, simple, it does what it says on the tin, is in line with our colleagues in Scotland, who operate as Audit Scotland, as you know."[11]

**14.** Ychwanegodd fod y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu hunaniaeth Archwilio Cymru yn dod i oddeutu £20,000 ac yn cynnwys datblygu'r hunaniaeth weledol newydd, yr arwyddion a chomisiynu fideo i esbonio'r hunaniaeth newydd.[12]

**15.** Cydnabu'r Archwilydd Cyffredinol bwysigrwydd gwahaniaethu rolau statudol yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru:

> "…clearly, when we are entering into anything contractual or with a legal ramification, or when we are very clearly operating in one guise or the other, then we continue to make clear the distinction that exists. But the cases where that is relevant are relatively small; they're significant, but few and far between. For the overwhelming majority of our externally facing outputs, the single, umbrella identity as Audit Wales is more appropriate."[13]

---

[10] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, tudalen 3

[11] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraff 120

[12] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraff 121

[13] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraff 122

## Perfformiad

**16.** Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20 yn nodi bod Archwilio Cymru wedi cyflawni, neu wedi dod yn agos at gyflawni, ei dargedau mewn 15 o'i 20 dangosydd, gyda pherfformiad yn erbyn y pum dangosydd sy'n weddill yn ganolbwynt i'w waith gwella yn 2020-21.[14]

**17.** Mae Archwilio Cymru wedi cynnwys targedau sydd wedi'u categoreiddio fel agos at gyflawni o fewn y rhai sy'n cael eu hystyried yn darged a gyflawnwyd. Yn flaenorol, roedd y rhain yn ddau gategori ar wahân. Pan ofynnwyd iddo pam roedd Archwilio Cymru yn teimlo ei bod yn briodol ac yn dryloyw cyfuno'r categorïau hyn, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> "…in terms of transparency, we continue to publish the precise figures that we are achieving and the targets that we're aiming for. So, I am comfortable it's entirely transparent. The red, amber, green system that we use, frankly, is simply to make sure that we focus on the big stuff, so we know where the areas are where we may need to make some significant improvement and that we don't dance on the head of a pin in areas where we're already performing well. That doesn't mean we don't give it any attention at all in my executive leadership team and at board. We have a frequent and regular assessment of our performance against all our KPIs and I press, and the board presses me very hard, to ensure that we're delivering as best we can on all fronts."[15]

**18.** Yn dilyn craffu y llynedd ar Adroddiad Blynyddol 2018-19, mynegodd y Pwyllgor bryderon y gallai newid mesurau perfformiad allweddol yn rheolaidd beryglu'r gallu i nodi tueddiadau a chymharu perfformiad y sefydliad o un flwyddyn i'r llall. O ganlyniad, argymhellodd y Pwyllgor y dylid darparu gwybodaeth am berfformiad gymaradwy ar gyfer dangosyddion 2018-19 ochr yn ochr â'r canlyniadau ar gyfer y dangosyddion diwygiedig yn 2019-20. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylai Swyddfa Archwilio Cymru sicrhau bod y gallu i olrhain perfformiad yn y dyfodol yn erbyn y flwyddyn flaenorol yn cael ei ddiogelu os bydd mesurau'n cael eu newid.[16]

---

[14] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, tudalen 17

[15] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraff 129

[16] Pwyllgor Cyllid, Craffu Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rhagfyr 2019 (Argymhellion 4 a 5)

**19.** Ni ellir cymharu canlyniadau 2019-20 yn uniongyrchol â 2018-19 gan fod dangosyddion wedi newid rhwng blynyddoedd. Y llynedd cyflawnodd Archwilio Cymru ei darged mewn 11 o 26 dangosydd (neu 18 allan o 26, os yw dod yn agos at gyflawni'r targed wedi'i gynnwys gyda chyflawni'r targed.[17]

**20.** O'r pum targed na chawsant eu cyflawni eleni, roedd angen "gwelliant sylweddol" yn achos dau ohonynt:

- Gwneud Gwahaniaeth: Sgôr canran cadarnhaol arolwg rhanddeiliaid ar gyfer pa mor dda y bernir y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni ei uchelgeisiau - Targed: 85 y cant, canlyniad: 61 y cant.

- Ymweliadau â'r wefan (cyfran): Cyfran yr ymweliadau â'r wefan lle cyflawnir o leiaf un weithred e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo - Targed: 50 y cant, canlyniad 25 y cant.[18]

**21.** Yn 2018-19, cyflawnodd Archwilio Cymru un yn unig o wyth targed yn y categori "arweinyddiaeth a diwylliant", ac mae angen gwelliant sylweddol o ran dysgu a datblygu gweithwyr ac arweinyddiaeth a rheoli newid yn y sefydliad.[19] Mae'n ymddangos bod y dangosyddion yn y categori hwn ar gyfer 2019-20 wedi'u newid yn sylweddol, gyda llai yn ymwneud â phrofiad gweithwyr. Fodd bynnag, mae'r un mesur sydd wedi'i gynnwys yn hyn o beth - Profiad gweithwyr - yn cael ei raddio fel "angen gwella". Mae'r mesur hwn yn ymwneud â sgoriau thematig cadarnhaol yr arolwg staff blynyddol. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cyfeirio darllenwyr at wefan Archwilio Cymru i gael mwy o fanylion am sgoriau thematig yr arolwg staff blynyddol. Mae'r sgoriau'n dangos, o ran ymgysylltu â gweithwyr, y bu gwelliant ym mhob un ond un o'r pum maes o'i gymharu â 2018.[20]

**22.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor fod sgôr y llynedd o 69 y cant ar y mynegai ymgysylltu â gweithwyr (i fyny o 67 y cant yn 2018[21]) yn gosod Archwilio Cymru yn chwartel uchaf yr holl sefydliadau sy'n cymryd rhan yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (CSPS) a'i fod yn dynodi gweithlu ymroddgar a diwylliant sefydliadol iach.[22]

---

[17] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2018-19

[18] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20, tudalen 19

[19] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2018-19, tudalen 16

[20] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, tudalen 20

[21] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2018-19, tudalen 35

[22] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraff 124

**23.** Tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at rai gwelliannau sylweddol yn y mesurau arweinyddiaeth ond cydnabu ei bod yn amlwg bod mwy i'w wneud yn hynny o beth. Ychwanegodd:

> "…I'm in the middle of a complete overhaul of the senior structure of the organisation, so I'm confident that that will contribute to continued improvement in our leadership matrix. We're also conscious, though, that there are other elements within the people survey where we clearly need to do more to improve the employee experience, most notably in respect of the way that we manage change, in the way that we support staff in their learning and development, and also in performance management."[23]

**24.** Amlinellodd yr Archwilydd Cyffredinol nifer o gamau a gymerwyd i geisio sicrhau gwelliannau yn y meysydd hyn, gan gynnwys:

- sefydlu rhaglen a thîm newid dan ofal gweithwyr proffesiynol i roi darlun tryloyw i'r bwrdd o holl brosiectau a rhaglenni newid y sefydliad;
- llu o weithgareddau i wella dysgu a datblygu a rheoli perfformiad, gan gynnwys dod o hyd i ffyrdd arloesol o gyflwyno'r rhain i staff mewn amgylchedd rhithwir.[24]

**25.** Gan gyfeirio at y Datganiad Tryloywder[25] a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol, mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi bod ei adolygiadau ansawdd yn dangos bod 100 y cant o'r archwiliadau a samplwyd o gyfrifon 2018-19 a phrosiectau archwilio perfformiad yn 2019 wedi bodloni'r safonau ansawdd gofynnol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wrthi'n sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio ffurfiol, a fydd yn cynnwys aelod proffesiynol annibynnol (y cyntaf ohonynt fydd Prif Swyddog Gweithredol Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon).[26]

**26.** Wrth gael ei holi ynghylch yr angen i sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

[23] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraffau 125-126

[24] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraffau 126-127

[25] Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru - Datganiad Tryloywder, Ionawr 2020

[26] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, tudalen 22

> "…we have seen the result from audit failures in the private commercial sector in the last few years, and you may have seen the Redmond review of audit in local government in England that came out a fortnight ago. These give us salutary lessons on the need never to take our eye off the ball in terms of quality. And quality for us comes in a range of different steps. It's not just about the technical expertise of our auditors, it's about how we recruit staff, how we develop them, the culture within the organisation that keeps that continuous focus, as well as some of the external assessment of the quality of our work that we can draw in. The new quality committee is an important part of that."[27]

**27.** Ymhelaethodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol ar swyddogaethau'r Pwyllgor Ansawdd Archwilio:

> "The committee itself has three key areas within its remit: firstly, we look at the arrangements that Audit Wales has got in place to manage and monitor audit quality, to make sure that they're effective, that they're in line with international standards on quality control; secondly, to make sure that the work that we deliver is of an appropriate quality standard and it meets not just the requirements set out in our own guidance and code of audit practice, but also relevant professional auditing standards; and also that things don't stand still, that audit quality continues to improve in line with best professional practice, because inevitably it's an evolving and improving thing. We are also, of course, charged with making sure that we are investing the right level of resource to ensure all of that audit quality is actually happening."[28]

## Llywodraethu

### Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

**28.** Cwblhaodd y Bwrdd hunanasesiad o'i effeithiolrwydd ac ystyriodd y canlyniadau ym mis Mawrth 2019. Roedd yn ystyried ei hun yn gymedrol effeithiol i hynod effeithiol ar draws pob agwedd ar yr asesiad. Cytunodd y Bwrdd i

[27] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraff 133

[28] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraff 135

gomisiynu adolygiad annibynnol o'i effeithiolrwydd ond ni ddenodd yr ymarfer caffael ddigon o ddiddordeb i'r Bwrdd ddyfarnu contract.[29]

**29.** Dywedodd Cadeirydd y Bwrdd wrth y Pwyllgor yr ystyrir ei bod yn arfer da cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y bwrdd gyda mewnbwn annibynnol bob pum mlynedd, gan nodi mai'r dyddiad cau ar gyfer yr adolygiad nesaf yw haf 2021. O ystyried yr ymateb siomedig i'r ymarfer tendro, eglurodd:

> "…we took the decision that we would have to get that independent input in another way. So, as well as doing our regular internal board effectiveness reviews every year, this March we actually undertook some board development days with independent input, which also looked at some of our effectiveness in that respect.
>
> That's not good enough going forward, and, right now, the specification for an independent review of board effectiveness is being prepared. But we took the decision that it might be best to do when the new chair was established in post, so it will be done in the next financial year."[30]

**30.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn ailadrodd datganiad o Adroddiad Blynyddol 2018-19, ynghylch gwybodaeth a ddarperir i'r Bwrdd:

> "Mae'r Bwrdd yn fodlon ag ansawdd yr wybodaeth y mae'n ei chael er bod rhywfaint o le i wella ei hehangder a'i hamseroldeb ac i sicrhau bod ffocws gwaith y Tîm Arwain Gweithredol a'r Bwrdd yn cyfateb yn well; mae gwaith ar y gweill i ymdrin â'r pwyntiau hyn."[31]

**31.** Esboniodd Cadeirydd y Bwrdd pam yr arhosodd y datganiad yn Adroddiad Blynyddol 2019-20:

> "…we've heavily invested in data analytics, not just to improve our audit processes, but we've also driven that it be used internally as part of our governance tools as well. So, we have now started, over the last year, to move to a real-time interactive management information dashboard, Microsoft Power BI. That covers not only our KPI tracker, our annual plan and areas of focus, but also our strategic and operational risk registers, as well as our equality objectives tracker. The comment was

---

[29] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, tudalen 62

[30] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraffau 149-150

[31] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20, tudalen 60

> really about embedding that even further. So, we're hoping that our financial reporting tool will also be able to be shortly added to that dashboard. So, it isn't anything sinister; it's just about driving that interactive management information, which is going very well."[32]

## Risgiau

**32.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi'r archwaeth risg ar gyfer pob maes sicrwydd ac yn dangos bod Archwilio Cymru yn ofalus neu'n wrth-risg mewn saith o'r un ar ddeg maes sicrwydd. Fodd bynnag, mae ganddo archwaeth "agored" o ran:

- Cyfeiriad Strategol;
- Model/dull gweithredu ar gyfer defnyddio adnoddau;
- Strategaeth y gweithlu a phobl;
- Effeithiolrwydd systemau busnes.[33]

**33.** Mae hefyd yn nodi chwe risg strategol allweddol:

- sefyllfa ariannol tymor hwy Swyddfa Archwilio Cymru o ystyried y diffygion a nodwyd yn y cynllun ariannol tymor canolig;
- trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn ddigon cadarn i ddiogelu data a sicrhau cydymffurfiaeth â'r GDPR;
- ymateb yn briodol, trwy ein gwaith archwilio, i oblygiadau uniongyrchol a thymor hwy Brexit ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru;
- bod gan y tîm adnoddau dynol ddigon o gapasiti a gallu i gefnogi ein hagenda uchelgeisiol ar gyfer newid;
- bod gan ein gweithlu ehangach y sgiliau, y profiad, y gallu a'r amrywiaeth angenrheidiol i gyflawni ein huchelgeisiau cyffredinol; ac yn fwy diweddar; a'r

[32] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraff 143

[33] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, tudalen 68

- pandemig COVID-19.[34]

**34.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi bod nifer o risgiau newydd wedi'u nodi ar gyfer 2021-22, yn gysylltiedig yn bennaf â COVID-19. Mae Archwilio Cymru wedi comisiynu gwaith i liniaru'r risgiau newydd hyn ac wedi paratoi asesiad manwl o effaith debygol COVID-19 ar ei raglen waith.[35]

**35.** O ran y risg sy'n ymwneud â sefyllfa ariannol tymor hwy Archwilio Cymru, eglurodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol fod diffygion sylweddol wedi'u nodi dros y tymor canolig, megis pwysau chwyddiant a'r tebygolrwydd o golli archwiliadau o grantiau cronfeydd amaethyddol erbyn diwedd 2020 (sydd wedi'i ohirio am dair blynedd ers hynny). Aeth ymlaen i ddweud eu bod yn mynd i'r afael â'r risg drwy nodi arbedion cost ac effeithlonrwydd, megis adolygu'r gymysgedd sgiliau a'r trefniadau teithio a chynhaliaeth yn ogystal â gyrru effeithlonrwydd trwy Ddadansoddeg Data a phrosiect Ein Gweithleoedd yn y Dyfodol.[36]

**36.** Ychwanegodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y ffocws cyson ar yrru effeithlonrwydd yn golygu:

> "when we get to the board or to the finance committee, or to our stakeholders, contemplating any increase either in a draw on the fund or an increase in fees, we've done everything we need in the lead-up to that to make sure that that is minimised".[37]

## Staff a Chydnabyddiaeth

### Cynllun Ailstrwythuro ac Ymadael Gwirfoddol Uwch Reolwyr

**37.** Mae Archwilio Cymru wedi defnyddio arbedion ar staffio a chostau eraill yn ystod y flwyddyn i ariannu Cynllun Ymadael Gwirfoddol (VES). Cytunwyd ar naw ymadawiad gwirfoddol yn 2019-20. Disgwylir i'r cynllun gyflawni arbedion blynyddol o £332,000, bydd yn costio £639,000 a disgwylir iddo dalu am ei hun o fewn 19 mis.[38]

[34] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20, tudalen 69

[35] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, tudalen 69

[36] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraffau 158-159

[37] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraff 161

[38] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20, tudalennau 75 ac 84

**38.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi'r cyfanswm un ffigur o dâl ar gyfer uwch reolwyr. Yn 2018-19 mae hyn yn dangos pum unigolyn, gan gynnwys un sydd wedi derbyn taliad VES o £161,000.[39] Yn 2019-20 mae pum aelod o'r Tîm Gweithredol o hyd, gydag aelod wedi'i benodi ym mis Gorffennaf 2019. Fodd bynnag, nodir nad oedd unrhyw dâl ychwanegol yn daladwy am ei rôl yn y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol".[40]

**39.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn amlinellu proses ailstrwythuro uwch reolwyr a'r iawndal cysylltiedig. Dechreuodd yr Archwilydd Cyffredinol ymgynghori ar yr ailstrwythuro ar 24 Chwefror 2020 ac, yn dilyn datganiadau o ddiddordeb mewn ymadael gwirfoddol, ystyriwyd ymadawiadau y cytunwyd arnynt gan y naill barti ar gyfer dau uwch gyfarwyddwr gan y Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol ar 19 Mawrth 2020 ac fe'u cymeradwywyd gan y Bwrdd.[41]

**40.** Dirprwyodd y Bwrdd i'r Prif Weithredwr yr awdurdod i benderfynu'n derfynol ar y telerau ymadael. Derbyniodd y ddau uwch gyfarwyddwr iawndal o £178,449 a £140,000. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi y bydd "arbedion sy'n gysylltiedig â'r ymadawiadau hyn yn golygu bod cost yr iawndal yn cael ei hadennill o fewn 22 mis".[42]

**41.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys amcangyfrif cost o £659,000 ar gyfer Ailstrwythuro'r Uwch Dîm. Mae hyn hefyd yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer dwy rôl arall y mae'r ailstrwythuro yn effeithio arnynt (y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol) yn seiliedig ar gost bosibl diswyddo gwirfoddol neu orfodol ar gyfer y rolau hynny.[43]

**42.** Ym mis Awst 2020, cychwynnodd Archwilio Cymru ymarfer recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid.

**43.** Eglurodd yr Archwilydd Cyffredinol ddiben ailstrwythuro'r uwch reolwyr i'r Pwyllgor:

> "The senior structure that I inherited, I would say, I'm sure had been right for the time, but it did not feel right for me in terms of the way

[39] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19, tudalen 83

[40] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20, tudalen 79

[41] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, tudalen 80

[42] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, tudalen 80

[43] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20, tudalennau 124 a 126

that I wanted to take the organisation forward. So, there were a number of features with the previous scheme that I wanted to address. I wanted to have a smaller senior team in place, so to make it a little leaner, to give a much clearer distinction for the organisation about where accountability and responsibility for strategic leadership in the organisation lay, and also to ensure that the senior structure that I had in place reflected the things that kept me awake and, therefore, the things that I needed in place to drive the organisation forward. So, the structure that I'm putting in place has three roles at the top of the organisation that reflect those three themes: first and foremost, our ability to deliver our audit work; secondly, to reflect the ambition that we have to be a model public service organisation and therefore to run a very tight corporate ship ourselves; and thirdly to reflect the change of emphasis that we touched on at the very start of the session in terms of having far greater impact in the way that we communicate with the outside world and the way that we manage change in the organisation."[44]

**44.** O ran costau ac adennill costau yr ailstrwythuro, cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol at waith ei ragflaenydd ar reoli ymadawiadau cynnar ar draws cyrff cyhoeddus Cymru:

"One of his recommendations was that they should provide payback to the public purse within three years. This restructure in its entirety will pay for itself in two years' time and then give ongoing savings of £120,000 a year thereafter. So, I'm comfortable that it stands up to scrutiny in terms of cost and payback, but, as I said at the start, its primary motivation was not as an efficiency drive; it was to ensure that I'd got the leadership structure in place to take the organisation forward."[45]

**45.** Ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at y Pwyllgor wedyn i esbonio sut y cyfrifwyd y cyfnod ar gyfer adennill costau'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol, gan gadarnhau:

- y bydd y costau ar gyfer y naw aelod staff a gytunodd ar delerau ymadael yn 2019-20 yn cael eu hadennill o fewn 19 mis;

---

[44] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraff 170

[45] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraffau 172

- y bydd y costau sy'n gysylltiedig â thaliadau ymadael dau uwch gyfarwyddwyr yn cael eu hadennill o fewn 22 mis.[46]

**46.** Esboniodd y llythyr hefyd, er bod gan y ddau uwch gyfarwyddwr hawl cytundebol i adael o dan delerau gwirfoddol yn hytrach na gorfodol:

- derbyniodd un unigolyn daliad sy'n sylweddol is na'r uchafswm y byddai ganddo hawl iddo o dan delerau ymadael gwirfoddol;

- derbyniodd yr unigolyn arall daliad a oedd yn gyfwerth â'r taliad gorfodol yr oedd ganddo hawl iddo (eto llai na'r uchafswm y byddai ganddynt hawl iddo o dan delerau gadael gwirfoddol).[47]

## Rhoi gwaith archwilio ar gontract allanol

**47.** Amlygodd Adroddiad Blynyddol 2018-19 fod y Bwrdd wedi penderfynu peidio â gwahodd tendrau am adnoddau archwilio allanol ychwanegol wrth symud ymlaen, gyda chontractau'r cwmnïau hynny yn rhedeg tan 31 Mawrth 2020.[48] Bydd y cyfrif cyntaf o'r newid hwn, gyda'r holl archwiliadau'n cael eu cynnal gan staff Archwilio Cymru yn unig, yn cael ei adlewyrchu yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf ar gyfer y cyfnod 2020-21. Fodd bynnag, mae Adroddiad Blynyddol 2019-20 yn nodi bod staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflawni 90 y cant o raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol, wedi'i ategu gan 10 y cant arall o adnoddau archwilio a gontractiwyd yn bennaf gan gwmnïau cyfrifyddu'r sector preifat yn 2019-20.[49]

**48.** Wrth gael ei holi am y penderfyniad i beidio â rhoi gwaith archwilio ar gontract i gwmnïau preifat mwyach, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> "I certainly think it was the right decision. It was a decision that the board took at the tail end of last year, so we're still just about winding up the work that our private-sector contractors are doing in respect of last year's accounts. We keep it under review and will do, in years going forward, to make sure that it remains appropriate for us. It's a big change of operational arrangement for us, but we're very confident of our ability to deliver all of the work in-house, and, first and foremost, our

---

[46] Llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Swyddfa Archwilio Cymru, 1 Hydref 2020
[47] Llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Swyddfa Archwilio Cymru, 1 Hydref 2020
[48] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2018-19, tudalen 39
[49] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20, tudalen 42

ability to do that to ensure that the quality of what we're doing is consistent across the board, and provides value for money for the taxpayer."[50]

## Gwybodaeth ariannol

**49.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi bod Archwilio Cymru wedi lleihau ei wariant 11 y cant mewn termau real ers 2013-14, gan nodi bod yr arbedion dros y cyfnod hwnnw yn £13.2 miliwn.[51]

**50.** Yn 2019-20, roedd cyfanswm y gwariant refeniw gros £107,000 (0.5 y cant) yn is na'r amcangyfrif cymeradwy. Roedd gwariant cyfalaf wedi tanwario £22,000 (10.5 y cant) hefyd.[52]

**51.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi y bydd £31,000 o adnoddau cronnus yn cael eu hildio i Gronfa Gyfunol Cymru yn ogystal â balans yr arian parod (£1.6 miliwn).[53]

**52.** Cyfanswm yr arbedion cyffredinol a nodwyd ar gyfer 2019-20 oedd £681,000, gan gynnwys arbedion o'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol blaenorol, rhaglenni trawsnewid ac adolygiad o ddulliau archwilio.[54]

**53.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn amlinellu nifer o brosiectau cyfalaf sydd â'r nod o sicrhau effeithlonrwydd. Mae buddsoddiad o £188,000 mewn pum maes yn cynnwys:

- £69,000 ar offer fideo-gynadledda ychwanegol;
- £63,000 ar liniaduron hybrid Newydd;
- £15,000 ar ddatblygu defnydd o SharePoint;
- £14,000 ar welliannau i'r rhwydwaith TG;
- £27,000 ar gyfer atgyweiriadau hanfodol i swyddfeydd.[55]

---

[50] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraff 188
[51] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, tudalen 37
[52] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20, tudalennau 37 a 94
[53] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20, tudalen 95
[54] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, tudalen 38
[55] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20, tudalen 38

**54.** Yn 2019-20, yr incwm o ffioedd Archwilio Ariannol oedd £10.8 miliwn a'r incwm o Archwilio Perfformiad oedd £4.0 miliwn. Roedd gwariant ar Archwilio Ariannol yn £11.4 miliwn a gwariant ar Archwilio Perfformiad yn £3.4 miliwn. Mae hyn yn golygu bod gwariant ar Archwilio Ariannol £606,000 yn uwch na'r incwm, tra bod gwariant ar Archwilio Perfformiad £606,000 yn is na'r incwm.[56]

**55.** Cwestiynodd y Pwyllgor y ffigurau incwm a gwariant ar gyfer y ddau gategori o waith archwilio a'r fethodoleg ar gyfer cyfrif ffioedd archwilio, o ystyried y gofyniad yn y Ddeddf[57] na chaiff y ffioedd a godir fod yn fwy na chost lawn arfer y swyddogaeth y mae'r ffi yn ymwneud â hi.

**56.** Esboniodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol fod y rheol dim mwy na chost lawn yn cael ei chyfrifo o fewn y cyfraddau ffioedd a osodir. Parhaodd:

> "The difference you refer to is largely due to timing of when our fee-earning work is delivered. It reflects the way that the costs are allocated between the two practices at a high level. We apply that 'no more than full cost' rule on a project-by-project basis rather than between the two practices – financial and performance audit."[58]

**57.** Eglurwyd cyflwyno ffigurau incwm a gwariant yn Nodyn 1(a) y Cyfrifon mewn gohebiaeth maes o law:

> "Y ffigurau incwm yw cyfanswm yr oriau a weithiwyd x y cyfraddau ffioedd cymeradwy wedi ei addasu wedyn ar gyfer addasiad cyfrifyddu 'cost cwblhau' diwedd blwyddyn, er mwyn sicrhau ein bod yn dosrannu incwm yn briodol ar draws y blynyddoedd ariannol y mae'r gwaith archwilio yn ymwneud â hwy.
>
> Mae'r ffigurau gwariant yn cynrychioli cyfanswm lefel uchel y cofnodion yn y siart cyfrifon, heb eu haddasu ar sail cyfrifiadau'r gyfradd ffioedd, er mwyn symlrwydd. Pe bai costau'n cael eu haddasu ar y sail honno, byddai'n ychwanegu cymhlethdod pellach at y broses diwedd

[56] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20, tudalen 113

[57] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, adran 23(5)(b)

[58] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraff 193

> blwyddyn sydd eisoes yn gymhleth, ond heb ychwanegu unrhyw werth na sicrwydd."[59]

**58.** Roedd y llythyr yn cydnabod y dryswch posibl y mae cyflwyno'r ffigurau fel hyn yn ei achosi a nododd y bydd Archwilio Cymru yn pwyso a mesur ar y dull cyflwyno fel rhan o'i ddysgu ar gyfer proses diwedd blwyddyn y flwyddyn nesaf.[60]

**59.** Mae'r swm sy'n ddyledus i Archwilio Cymru wedi codi o £26,000 i £192,000 ar ddiwedd mis Mawrth 2020. Cadarnhaodd gohebiaeth ddilynol:

> "Roedd y cynnydd hwn yn ganlyniad i anfon anfonebau rhandaliadau ychydig yn hwyrach nag oedd wedi digwydd y flwyddyn flaenorol. Nid oes achos i boeni ac mae'r holl symiau a oedd yn weddill wedi dod i law ers hynny."[61]

## Barn y pwyllgor

**60.** Mae'r Pwyllgor yn nodi cyflwyno hunaniaeth Archwilio Cymru a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru i gyfathrebu nodau ac amcanion y sefydliad yn well. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod y newid hwn yn adlewyrchu ac yn cadw at egwyddorion a nodau'r is-adran yn llawn mewn rolau a chyfrifoldebau a bennir gan y Ddeddf.

**61.** Mae'r Pwyllgor wedi tynnu sylw yn y gorffennol at yr anawsterau wrth olrhain perfformiad Archwilio Cymru pan fydd dangosyddion yn cael eu hailstrwythuro bob blwyddyn, ac mae'n siomedig nad yw Adroddiad Blynyddol 2019-20 yn cynnwys gwybodaeth gymaradwy ar gyfer 2018-19, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor yn dilyn craffu blynyddol y llynedd.

**62.** At hynny, mae Archwilio Cymru wedi penderfynu addasu'r ffordd y mae'n adrodd ar ei fesurau perfformiad yn ei Adroddiad Blynyddol 2019-20, gan gyfuno mesurau a gyflawnwyd ac agos at gael eu cyflawni mewn un categori. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod esboniad yr Archwilydd Cyffredinol dros fabwysiadu system goleuadau traffig i ganolbwyntio trafodaethau mewnol y Bwrdd, a'i sicrwydd bod union ffigurau perfformiad yn dal i gael eu cynnwys. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cwestiynu ai dyma'r ffordd fwyaf tryloyw i adrodd ar y mesurau hyn i

---

[59] Llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Swyddfa Archwilio Cymru, 1 Hydref 2020
[60] Llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Swyddfa Archwilio Cymru, 1 Hydref 2020
[61] Llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Swyddfa Archwilio Cymru, 1 Hydref 2020

randdeiliaid allanol, yn enwedig o gyfuno hyn â gostyngiad cyffredinol yn nifer y dangosyddion ers 2018-19 (o 26 i 20).

**63.** Er bod y dangosydd sy'n ymwneud â phrofiad gweithwyr cyflogedig yn parhau i gael ei raddio fel un sydd angen ei wella, mae'r sgôr uwch ym mynegai ymgysylltu â gweithwyr Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn galonogol. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Archwilio Cymru yn ymgymryd â nifer o weithgareddau i wella profiad gweithwyr cyflogedig a byddai'n croesawu diweddariad ar effaith y camau wedi'u targedu hyn. Cydnabyddir hefyd yr effaith gadarnhaol y mae ailstrwythuro'r uwch dîm arweinyddiaeth yn debygol o'i chael ar sgoriau arolwg staff y dyfodol. Bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â lles gweithwyr yn arbennig o bwysig wrth fonitro effaith COVID-19 ar staff.

**64.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Pwyllgor Ansawdd Archwilio ffurfiol wedi'i sefydlu i fonitro a nodi gwelliannau mewn ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru ac mae'n edrych ymlaen at weld effaith ei waith.

**65.** Er ei bod yn siom na lwyddwyd i gwblhau adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd y Bwrdd cyn i'r Cadeirydd cyntaf roi'r gorau iddi, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod yr oedi yn cynnig cyfle i'r Cadeirydd newydd lunio'r fanyleb ar gyfer adolygiad annibynnol yn ei blwyddyn gyntaf yn y swydd.

**66.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod cyfiawnhad yr Archwilydd Cyffredinol dros ailstrwythuro rheolwyr, gan leihau ei uwch dîm rheoli gan un ac alinio'r rolau hynny â blaenoriaethau strategol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o faint y newidiadau hyn, o ran colli gwybodaeth a phrofiad yr unigolion hynny a gorffen y broses recriwtio ar gyfer dwy swydd sydd wedi'u creu o'r newydd. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol hefyd fod y newidiadau hyn yn cael eu gwneud ar adeg o darfu sylweddol i staff. At hynny, mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut y bydd y newidiadau yn effeithio ar strwythur y staff sy'n weddill yn y dyfodol, gan gynnwys cynllun gwaith dirprwyo'r Archwilydd Cyffredinol.

**67.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am yr eglurhad a ddarparwyd ynghylch adrodd ar incwm a gwariant ar gyfer ei waith archwilio a pherfformiad ac mae'n nodi y bydd y dull yn cael ei adolygu cyn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon nesaf.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn adolygu ei ddull o fesur perfformiad, gan sicrhau bod modd cymharu mesurau â blynyddoedd blaenorol ac osgoi unrhyw amwysedd posibl wrth adrodd ar ei ganlyniadau perfformiad yn gyhoeddus.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2020-21 yn cynnwys manylion am effaith ailstrwythuro'r uwch dîm

arweinyddiaeth a'r gweithgareddau a wnaed i wella profiad gweithwyr cyflogedig yn Archwilio Cymru.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu penderfyniad yr Archwilydd Cyffredinol i sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio ac yn argymell bod diweddariad ar waith y Pwyllgor yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn amlinellu pa gamau a gymerwyd i liniaru colli gwybodaeth sefydliadol a'i fod yn rhoi diweddariad ar oblygiadau'r newidiadau arweinyddiaeth ar strwythurau staffio, amcanion ac unrhyw newid yn ffocws Archwilio Cymru unwaith y bydd y strwythur newydd yn ei le.

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ag Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-20.

# 3. Adroddiad Canfyddiadau Archwilio - Y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

**68.** Mae'r Adroddiad Canfyddiadau Archwilio yn crynhoi canfyddiadau allweddol archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru, RSM UK Audit LLP ('RSM'), mewn cysylltiad â'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020. Mae hwn yn ofyniad o dan Atodlen 1 o'r Ddeddf.[62]

**69.** Gosodwyd yr Adroddiad Canfyddiadau Archwilio gerbron y Senedd ar 19 Mehefin 2020.[63] Fodd bynnag, cafodd y Pwyllgor ohebiaeth gan RSM ar 11 Tachwedd 2020 yn nodi newidiadau a wnaeth i fersiwn derfynol ei adroddiad.[64] Roedd fersiwn gyntaf yr adroddiad yn nodi bod ei waith archwilio wedi'i gwblhau i raddau helaeth ac yn amodol ar ddatrys materion sy'n weddill yn llwyddiannus, ei fod yn rhagweld y byddai'n cyhoeddi barn archwilio heb ei haddasu ar ddatganiadau ariannol y grŵp yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Gosodwyd yr adroddiad cywir gerbron y Senedd ar 11 Tachwedd 2020.[65] Nid yw gohebiaeth RSM yn manylu sut neu pam y cyflwynwyd dwy fersiwn o'r adroddiad.

**70.** Yn eu hadroddiad terfynol, mae RSM wedi darparu barn archwilio ddiamod neu "lân" o gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru.[66]

**71.** Ni nodwyd unrhyw addasiadau archwilio dibwys gan RSM. Mae'r risgiau a archwiliwyd yn adlewyrchu'r rhai a nodwyd gan RSM yn e waith cynllunio ar gyfer yr archwiliad:

- Cydnabod Refeniw a Gwaith ar Waith;
- Rheolwyr yn drech ar reolaethau mewnol;
- Risg i enw da;

[62] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

[63] Adroddiad Canfyddiadau Archwiliad RSM UK Audit LLP - Y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

[64] Llythyr gan RSM UK Audit LLP, 11 Tachwedd 2020

[65] Adroddiad Canfyddiadau Archwiliad RSM UK Audit LLP - Y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

[66] Adroddiad Canfyddiadau Archwiliad RSM UK Audit LLP - Y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

- Ystyriaethau adrodd ariannol Brexit.[67]

**72.** Ychwanegwyd ystyriaethau adrodd ariannol COVID-19 at y risgiau hefyd.[68]

**73.** Nid oedd unrhyw argymhellion rheoli sylweddol. Nodwyd dwy broblem rheoli. Mae'r gyntaf yn ymwneud â'r gyflogres, gyda RSM yn nodi nad oes adolygiad llinell wrth linell o'r gyflogres. Mae Archwilio Cymru yn rhoi proses ar waith i dynnu sylw at amrywiannau dros swm penodol i'w gwirio a'u cofnodi. Roedd yr ail broblem yn ymwneud â'r weithdrefn gaffael, gyda'r nifer ofynnol o ddyfynbrisiau heb eu cael ar gyfer un ymarfer caffael. Mae Archwilio Cymru yn bwriadu rhoi hyfforddiant i'r staff dan sylw a chynnal adolygiad cyfnodol o'r trefniadau ar gyfer cydymffurfio.[69]

**74.** Tynnwyd sylw hefyd at y broses gyflogres ar gyfer treuliau Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Mae RSM yn nodi:

> "An agreement has been reached with the Assembly Commission to amend the payment process. The Chair's expenses are now directly charged on the Welsh Consolidated Fund, rather than being indirectly recovered through the Estimate. It has been agreed with the Assembly that the 2021 estimate will be reduced by the value of the Chair's expenses, approximately £5,000, as part of the year end outturn. No adjusting corrections are needed in respect of previous years because there is no consequential misstatement in any accounts."[70]

**75.** Mae'r adroddiad RSM yn crynhoi dau wall neu gamddatganiad a nodwyd yn ystod yr archwiliad, y ddau yn ymwneud â chyfrifo ffi archwilio ac incwm cronedig/gohiriedig.[71]

**76.** Mae'r cyntaf yn ymwneud â chyfraddau codi tâl a ddefnyddir wrth gyfrifo cost cwblhau asesiadau sy'n ymwneud â'r ffi archwilio ac incwm cronedig yr

---

[67] Adroddiad Canfyddiadau Archwilio RSM UK Audit LLP - Y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, tudalennau 3-6

[68] Adroddiad Canfyddiadau Archwilio RSM UK Audit LLP - Y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, tudalen 3 a 7

[69] Adroddiad Canfyddiadau Archwiliad RSM UK Audit LLP - Y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, tudalen 9

[70] Adroddiad Canfyddiadau Archwilio RSM UK Audit LLP - Y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, tudalen 8

[71] Adroddiad Canfyddiadau Archwilio RSM UK Audit LLP - Y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, tudalennau 5 a 13

addaswyd y cyfrifon drafft ar eu cyfer (i gynyddu incwm ffioedd archwilio ac incwm cronedig £21,000).

**77.** Mae'r ail yn ymwneud ag elfen farnwrol a ychwanegir at gostau i gwblhau asesiadau ar gyfer effeithiau COVID-19. Mae'r Adroddiad Canfyddiadau Archwilio yn nodi bod y tîm cyllid yn ychwanegu 5 y cant at gost cwblhau asesiad a wneir gan reolwyr prosiect, fel amcangyfrif o'r costau ychwanegol o ganlyniad i COVID-19. Mae hyn yn gyfystyr â chynnydd o £55,000 yn incwm ffioedd archwilio ac nid yw'n cael ei ystyried yn berthnasol, nac o reidrwydd yn wall.

**78.** Eglurodd yr Archwilydd Cyffredinol fod hwn yn addasiad technegol, sy'n angenrheidiol ar ddiwedd unrhyw flwyddyn mewn perthynas â chario gwaith ymlaen i flwyddyn adrodd ddilynol, yn hytrach na chost ychwanegol ar gyrff sy'n cael eu harchwilio.[72]

## Barn y pwyllgor

**79.** Mae'r Pwyllgor yn nodi barn archwilio derfynol RSM a gyflwynwyd yn ei adroddiad diwygiedig. Er ei fod yn cydnabod y camau a gymerwyd i gyflwyno fersiwn derfynol yr adroddiad, mae'n siomedig i'r camgymeriad hwn ddigwydd ac na sylwyd arno ynghynt.

**80.** Mae'r mater a amlygwyd mewn perthynas â thalu treuliau Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi'i nodi a bydd y Pwyllgor yn ei ystyried maes o law.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod RSM UK Audit LLP yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod fersiwn derfynol ei adroddiad Canfyddiadau Archwilio yn cael ei osod gerbron y Senedd yn y dyfodol, a'i fod yn hysbysu'r Pwyllgor am unrhyw broblemau o ran cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan baragraff 35(2), Atodlen 1 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod RSM UK Audit LLP yn diweddaru cyfeiriadau yn adroddiad canfyddiadau archwilio y dyfodol o "National Assembly for Wales Commission" i "Senedd Commission". Ailenwyd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Comisiwn y Senedd drwy rinwedd adran 6 o Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru), a ddaeth i rym 6 Mai 2020, a dylai dogfennau ffurfiol gydnabod hyn.

[72] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraff 208

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr adroddiad Canfyddiadau Archwilio gan RSM UK Audit LLP, a ddaeth i'r casgliad bod cyfrifon 2019-20 yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru.

# 4. Adolygiad gwerth am arian: Cynllun teithio

**81.** Cyflogodd Archwilio Cymru RSM i gynnal adolygiad Gwerth Am Arian (VFM) o'i lawlyfr teithio a threuliau. Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor yr astudiaeth ar 19 Medi 2019.[73] Costiodd yr adolygiad o'r cynllun teithio £24,000.[74]

**82.** Cynhaliwyd astudiaeth RSM cyn pandemig y coronafeirws ac mae'n cywain dadansoddiad o'r data teithio a threuliau craidd, cyfarfodydd ag uwch gyfarwyddwyr, arolwg staff, grwpiau ffocws, trafodaethau â'r Undebau Llafur a meincnodi.[75]

**83.** Mae'r astudiaeth yn nodi bod gan Archwilio Cymru lwfans teithio sefydlog, yn hytrach na bod yn seiliedig ar gyfraddau milltiredd Cyllid a Thollau EM, ac mae hefyd yn talu lwfans milltiredd. Mae'r astudiaeth yn nodi bod gwariant yn £643,000 ar y lwfans teithio sefydlog (ym mis Mawrth 2020) a £193,000 ar y lwfans milltiredd (ar gyfer 2018-19). Mae'r lwfansau yn cyfrif am ychydig dros 70 y cant o wariant teithio a chynhaliaeth Archwilio Cymru. Mae'r astudiaeth yn ystyried nifer o newidiadau ac opsiynau, gan gynnwys opsiynau ar gyfer sut y gall y cynllun gyfrannu at amcanion amgylcheddol Archwilio Cymru.

**84.** Mae'r astudiaeth hefyd yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am gyflogau staff ac yn nodi bod cyflogau graddedigion yn is na sefydliadau sydd wedi'u meincnodi. Mae'r arolwg a gynhaliwyd gan RSM yn tynnu sylw at y ffaith bod 68 y cant o staff yn cytuno'n rhannol o leiaf bod y lwfans teithio yn rhan o'u pecyn cyflog.

**85.** Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor, mae Archwilio Cymru yn nodi:

> "Mewn ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad, mae'r Bwrdd o'r farn y dylid dod â'r Lwfans Teithio i ben a mabwysiadu cyfraddau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn lle hynny. Er hynny, rydym yn cydnabod bod y lwfans wedi bod yn ei le ers amser maith a bod llawer o staff yn ei ystyried yn rhan o'u tâl cyffredinol yn hytrach nag fel ad-daliad am gost teithio ar fusnes. Yn wir, mae lefelau cyflog rhai aelodau o staff wedi'u

[73] Pwyllgor Cyllid, 19 Medi 2019, Eitem 6

[74] Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2019-20, Tudalen 116

[75] Llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, Adolygiad gwerth am arian o gynllun teithio a threuliau Archwilio Cymru, 1 Medi 2020

> penderfynu gan gadw mewn cof y bydd y lwfans hefyd yn cael ei dalu."[76]

**86.** Aiff y llythyr ymlaen i ddweud bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen staff wedi'i sefydlu i ddatblygu cynigion ar gyfer cynllun teithio a threuliau 'addas ar gyfer y dyfodol'. Mae hyn yn cynnwys cynigion i gymell teithio mwy gwyrdd, ffyrdd craffach o weithio (gan gynnwys gwersi a ddysgwyd o gyfnod y cyfyngiadau symud) ac arbedion o £1 miliwn dros bum mlynedd.[77]

**87.** Mae Archwilio Cymru wedi nodi y bydd y grŵp sydd â'r dasg o ddyfeisio cynllun teithio newydd yn gweithio ar fyrder ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Taliadau ac Adnoddau Dynol ym mis Mawrth 2021, gyda diweddariadau ym mis Tachwedd a mis Ionawr.[78]

**88.** O ran pa gamau y bydd Archwilio Cymru yn eu cymryd o ganlyniad i'r astudiaeth a'r effaith y bydd newidiadau yn ei chael ar dâl staff, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> "…over the years, we have been travelling less and less, and, obviously, over the last six months we've travelled not at all. Having such a large fixed element within the regime therefore starts to become increasingly anomalous. In reviewing it, I'm very conscious, as you suggest, it's not making me the most popular auditor general in the world, because this has very real personal financial consequences for a lot of our staff. My approach, therefore, is to be as open and honest with staff as I possibly can be. The RSM report demonstrates that if we were to replace the allowance with a more traditional mileage sum that the bulk of the rest of the public sector would adopt, we would save significant sums every year."[79]

---

[76] Llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, Adolygiad gwerth am arian o gynllun teithio a threuliau Archwilio Cymru, 1 Medi 2020

[77] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, Adolygiad gwerth am arian o gynllun teithio a threuliau Archwilio Cymru, 1 Medi 2020

[78] Llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, Adolygiad gwerth am arian o gynllun teithio a threuliau Archwilio Cymru, 1 Medi 2020

[79] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraff 215

**89.** Nododd, yn ogystal â sicrhau arbedion ariannol sylweddol, y gallai rhywfaint o'r arian gael ei ddefnyddio i roi system iddynt sy'n addas ar gyfer siâp y sefydliad yn y dyfodol.[80]

## Barn y pwyllgor

**90.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r astudiaeth gwerth am arian a sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i roi'r canlyniadau ar waith, yn enwedig o ystyried yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael o ran cyflymu trawsnewid busnes a newid ein ffordd o weithio. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o'r canlyniadau ariannol uniongyrchol i weithwyr a'r angen i sicrhau bod ystyriaeth ddyledus yn cael ei rhoi i gyflogau a chadw staff pan fydd cynigion i newid y Cynllun Lwfans Teithio yn cael eu datblygu.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu diweddariad wrth i'r prosiect i adolygu'r cynllun teithio fynd yn ei flaen, gan gynnwys canlyniadau trafodaethau gyda staff a'r Undebau Llafur ar y newidiadau a gynigir, ynghyd â'r amserlenni ar gyfer gweithredu a'r arbedion a ragwelir.

[80] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 21 Medi, paragraff 216

# 5. Cynllun Blynyddol 2020-21 ac Adroddiad Interim 2020-21

**91.** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddi Cynllun Blynyddol ac o leiaf un Adroddiad Interim bob blwyddyn.[81]

**92.** Mae Cynllun Blynyddol 2020-21[82] yn amlinellu'r rhaglenni gwaith am y flwyddyn ac fe'u gosodwyd ar 31 Mawrth 2020.

**93.** Mae'r Adroddiad Interim[83] yn darparu asesiad o'r graddau y mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau a amlinellwyd yng Nghynllun Blynyddol 2020-21 ac yn darparu gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad allweddol. Gosodwyd yr Adroddiad Interim gerbron y Senedd ar 23 Hydref 2020.

## Cynllun Blynyddol

**94.** Mae'r Cynllun Blynyddol yn nodi cynllun gwaith Archwilio Cymru am y flwyddyn, gan gynnwys gwaith archwilio cenedlaethol ac archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am waith arall, fel arferion da a chymorth ar gyfer craffu.[84]

**95.** Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am uchelgeisiau Archwilio Cymru, yn nodi ei amgylchedd gwaith disgwyliedig a'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y flwyddyn. Mae nifer y dangosyddion yn parhau i leihau, gyda 18 dangosydd wedi'u nodi yng Nghynllun Blynyddol 2020-21. Roedd 27 ohonynt yng Nghynllun Blynyddol 2018-19 ac 20 yng Nghynllun Blynyddol 2019-20. Yn ogystal â lleihau nifer y dangosyddion ryw ychydig eleni, mae ffocws a geiriad rhai o'r dangosyddion hynny wedi newid o gymharu â'r flwyddyn flaenorol hefyd.[85]

**96.** Mae'r Cynllun Blynyddol yn nodi:

---

[81] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

[82] Cynllun Blynyddol 2020-21

[83] Adroddiad Interim, Hydref 2020

[84] Cynllun Blynyddol 2020-21

[85] Cynllun Blynyddol 2020-21

> "Shortly before publication, however, we were overtaken by the extraordinary circumstances of the Covid-19 outbreak. Like everyone, our immediate priorities have been fundamentally altered as we focus on the well-being of our employees, maintaining business continuity and supporting the wider public sector and community.
>
> We have already communicated to the bodies that we audit that we have scaled down our work and are adopting alternative delivery approaches, to ensure that audit does not in any way add to the huge pressures currently faced by public service providers."[86]

## Adroddiad Interim

**97.** Mae'r Adroddiad Interim yn nodi bod Archwilio Cymru yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni ei raglen lawn o waith archwilio cyfrifon 2019-20, "ond dros gyfnod mwy estynedig". Mae'n nodi bod y rhaglen waith genedlaethol "bob amser wedi cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd" ond mae'n mynd ymlaen i ddweud bod yr hyblygrwydd hwnnw wedi cael ei arfer "eleni yn fwy nag erioed o'r blaen".[87]

**98.** Mae'n crynhoi'r newidiadau a wnaed yn ystod y chwe mis diwethaf mewn ymateb i'r pandemig:

- Rhoi'r gorau i weithio ar y safle a chau'r swyddfeydd;
- Yr holl staff yn gweithio gartref;
- Ymgysylltu â'r cyrff sy'n cael eu harchwilio o bell;
- Sefydlu ffyrdd newydd o weithio i gyflawni gwaith archwilio;
- Rhaglen gwerth am arian wedi'i hail-lunio;
- Sefydlu prosiect dysgu am COVID-19;
- Paratoi i staff ddychwelyd yn ddiogel i'r swyddfeydd;

[86] Cynllun Blynyddol 2020-21, Rhagair

[87] Adroddiad Interim, Hydref 2020, tudalen 8

- Rhoi system o gefnogaeth ar waith i staff a sefydlu'r dull gweithredu "hunan, teulu, gwaith… yn y drefn honno".[88]

**99.** Er nad yw Archwilio Cymru wedi cyhoeddi unrhyw adroddiadau sy'n canolbwyntio'n benodol ar COVID-19, mae ei waith wedi'i ail-lunio i gefnogi ymateb y sector cyhoeddus i'r pandemig. Bydd gwaith arfaethedig yn ymwneud â seilwaith band eang, tai fforddiadwy a rheoli perygl llifogydd ac erydiad arfordirol yn digwydd fel rhan o waith cynllunio 2021-22. Mae gwaith arall, er enghraifft ar gynllunio gweithlu Llywodraeth Cymru, yn cael ei wneud ar raddfa lai. Fodd bynnag, mae Archwilio Cymru yn bwriadu cyflawni 18 allbwn cenedlaethol yn 2020-21, fel y rhagwelwyd yn y Cynllun Blynyddol.[89]

~~**100.**~~ Gwneir llawer o waith arferion da Archwilio Cymru trwy seminarau dysgu a rennir, ac mae pob un ohonynt wedi'i ganslo ar gyfer 2020-21. Mae'r gwaith hwn wedi newid i brosiect dysgu am COVID, lle mae staff Archwilio Cymru yn "casglu arferion newydd ac arferion eraill wrth iddynt ddod i'r amlwg ac yn eu dadansoddi'n gyflym er mwyn tynnu sylw at bwyntiau dysgu perthnasol". Rhennir y dysgu â chysylltiadau allweddol ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.[90]

**101.** Mae Archwilio Cymru yn nodi ei fod wedi ail-lunio ei gynlluniau archwilio llywodraethu a gwerth am arian yn sylweddol yng nghyrff unigol y GIG a llywodraeth leol a gaiff eu harchwilio i ganolbwyntio ar y materion sydd fwyaf perthnasol. Mae gwaith ar Profi, Olrhain, Diogelu a gwaith dysgu am COVID yn cael ei wneud ac nid oes archwiliadau datblygu cynaliadwy yn cael eu cynnal yn 2020-21.[91]

**102.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor, er bod y pandemig wedi arbed arian mewn costau teithio heb os, mae ymgymryd â gwaith cyfrifon o bell yn cymryd mwy o amser ac mae ychydig yn llai effeithlon. Parhaodd:

> "During the pandemic, we worked really closely with the NHS in particular. They were fantastic in securing direct access for our staff to the financial systems on which all parts of the NHS operate. Unfortunately, we've not been able to do the same in local government and elsewhere, in part because they use myriad different systems. The NHS is all on the same core system. So, in local government and

[88] Adroddiad Interim, Hydref 2020, Rhagair
[89] Adroddiad Interim, Hydref 2020, Rhagair a thudalennau 9-10
[90] Adroddiad Interim, Hydref 2020, Rhagair
[91] Adroddiad Interim, Hydref 2020, tudalen 8

> elsewhere, by and large, we're having to rely on alternative ways of secure file transfer on specific files and questions that we would pose, rather than having direct access to the whole systems. Longer term, as I say, I would love to get to the position where we are in that position to be able to access entire financial ledgers and so on to undertake our audit work."[92]

**103.** Yn dilyn hyn ysgrifennodd Archwilio Cymru at y Pwyllgor yn egluro'r heriau sydd ynghlwm wrth gael mynediad o bell i systemau cleientiaid.[93]

**104.** Wrth gael ei holi ynghylch ail-lunio'r rhaglen gwaith archwilio, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol ei bod bellach yn canolbwyntio ar y materion sydd fwyaf perthnasol ac sydd â'r flaenoriaeth fwyaf i'n partneriaid mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth cyhoeddus a mynegodd awydd i gyflawni gwaith archwilio sy'n canolbwyntio mwy ar yr hyn sy'n digwydd nawr. Ymhelaethodd ar hyn gan ddefnyddio'r prosiect dysgu am COVID fel enghraifft:

> "This is relying on our network of staff in every part of the public service in Wales and the relationships that we have through them to hoover up information about the novel and innovative practice that is taking place in Wales, to analyse that ourselves and then to play it back in close to real time to our colleagues across the public service."[94]

**105.** Gan gydnabod manteision gweithio o bell, cydnabu'r Archwilydd Cyffredinol y cyfyngiadau y mae hyn yn eu cyflwyno, yn enwedig wrth gynllunio a chwmpasu prosiectau ac ar gyfer yr hyfforddeion graddedig a'r prentisiaid sydd angen ac yn haeddu cael llawer o arweiniad a chefnogaeth gan eu rheolwyr llinell a'u cydweithwyr.[95]

**106.** Pwysleisiodd yr Archwilydd Cyffredinol bwysigrwydd y dull gweithredu 'hunan, teulu, gwaith' a fabwysiadwyd ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud ym mis Mawrth a mynegodd ei benderfyniad i ofalu am les emosiynol a meddyliol pobl yn gyntaf. Gan dalu teyrnged i staff Archwilio Cymru, ychwanegodd:

> "I hope you'll have seen from the interim report that this is an organisation that I believe has absolutely stepped up during the

[92] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraffau 89-90
[93] Llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, 11 Tachwedd 2020
[94] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraffau 24-25
[95] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraff 28

pandemic and has delivered fantastic things for us all. But I keep saying to the team that I want us to come out of this not only having survived it, but, actually, having grown and, if anything, in a better place than when we went into it."[96]

## Barn y pwyllgor

**107.** Mae'r Pwyllgor yn canmol Archwilio Cymru ar ei ymateb i argyfwng y coronafeirws, gan ddod o hyd i ffyrdd arloesol o gyflawni ei waith archwilio ariannol statudol o bell ac ail-lunio ei raglen waith i gyflawni mwy o waith archwilio perfformiad amser real er mwyn cefnogi ymateb y sector cyhoeddus i COVID-19 a darparu gwaith craffu yn effeithiol. Mae'r Pwyllgor yn nodi, er na fydd y trefniadau gweithio newydd yn gweithio mor effeithlon â dull traddodiadol o bosibl, mae Archwilio Cymru yn bwriadu cyflawni ei raglen lawn o waith archwilio cyfrifon.

**108.** Ni ellid cyflawni hyn heb y gwydnwch a'r ymrwymiad a ddangoswyd gan staff Archwilio Cymru ac mae'r Pwyllgor yn adleisio pwysigrwydd blaenoriaethu eu lles yn anad dim, yn enwedig yn y cyfnod heriol ac ansicr hwn.

**Argymhelliad 8.** Gan gydnabod nad yw'n waith archwilio traddodiadol, mae'r Pwyllgor yn croesawu mwy o wybodaeth am waith y prosiect dysgu am COVID.

**Casgliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn nodi Cynllun Blynyddol 2020-21 ac Adroddiad Interim 2020-21 ac mae'n fodlon â'r ddwy ddogfen hyn.

---

[96] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd 2020, paragraffau 107-108

# 6. Amcangyfrif o incwm a threuliau am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022

**109.** Paratowyd yr amcangyfrif o incwm a threuliau am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022 (yr Amcangyfrif)[97] ar y cyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'i gosodwyd gerbron y Senedd ar 20 Hydref 2019, yn unol ag Adran 20(1) o'r Ddeddf.[98]

**110.** O dan Reolau Sefydlog, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru osod eu cyd-amcangyfrif o incwm a threuliau gerbron y Senedd erbyn 1 Tachwedd fan bellaf. Mae Rheol Sefydlog 20.22 yn nodi:

> "Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 18.10(i) ystyried adroddiad sy'n cynnwys yr amcangyfrif a'i osod gerbron y Senedd heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y pwyllgor cyfrifol, ar ôl iddo ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd ganddynt."[99]

## Cyd-destun

**111.** Ym mis Mai 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Ddatganiad o Egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru (cyrff a ariennir yn uniongyrchol) i'w hystyried wrth lunio ceisiadau cyllidebol:

Datganiad o Egwyddorion ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol

- Dylid gosod ceisiadau cyllidebol yng nghyd-destun y sefyllfa ariannu hirdymor yng Nghymru, a'r pwysau ariannol sy'n bodoli yn y sector cyhoeddus ehangach.
- Dylai ceisiadau ddangos sut y caiff amcanion blynyddol ac amcanion amlflwydd eu blaenoriaethu, eu monitro a'u cyflawni.

[97] Rhan 1 - Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022

[98] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

[99] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Rheol Sefydlog 20.22

- Ni ddylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ragdybio unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau, waeth beth fo'r newid yn y grant bloc, gan fod unrhyw gynnydd yn eu cyllidebau yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus datganoledig eraill.
- Dylai Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol geisio gwella eu prosesau a sicrhau arbedion yn barhaus.
- Mewn achosion lle y gwneir cais am gynnydd mewn cyllid, dylid cefnogi unrhyw gais o'r fath gyda thystiolaeth o'r angen a'r budd sydd ynghlwm wrth y cais, a thystiolaeth o'r ymdrechion a wnaed i leihau costau cysylltiedig. Yn ogystal, dylid egluro a meintioli'r canlyniadau sydd ynghlwm wrth beidio â sicrhau'r cynnydd mewn adnoddau y gofynnwyd amdano.

## Trosolwg o'r Amcangyfrif

**112.** Ar gais y Pwyllgor Cyllid ar ôl iddo graffu ar yr Amcangyfrif ar gyfer 2020-21[100] a'i addasu, cyflwynir Amcangyfrif eleni mewn dwy ran:

- Rhan 1 - Cwmpas y gyllideb
- Rhan 2 - Gwybodaeth ategol

**113.** Mae'r Amcangyfrif yn cydnabod yr "ansicrwydd digynsail" ynghylch cyllid yn y dyfodol a nodwyd gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn ei llythyr ar 11 Awst 2020.[101] Mae'n nodi gostyngiad yng ngalw Archwilio Cymru am gyllid refeniw o Gronfa Gyfunol Cymru (WCF) o £200,000 yn 2021-22 (gan gynnwys gostyngiad o £80,000 yng nghyllid y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) bob yn ail flwyddyn).[102]

**114.** Fodd bynnag, mae'r Amcangyfrif yn cynnwys cynnydd cyfatebol mewn cyfalaf:

- Bydd cyllid refeniw yn gostwng £120,000 i £7.8 miliwn

[100] Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid - Amcangyfrif wedi'i addasu o'r Incwm a'r Treuliau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 a Chynllun Ffioedd 2020-21, 15 Ionawr 2020

[101] Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd - Cynllunio ariannol ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol yn y dyfodol, 11 Awst 2020

[102] Rhan 1 - Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022

- Bydd cyllid cyfalaf yn cynyddu £120,000 i £350,000[103]

**115.** Mae'r gostyngiad mewn cyllid refeniw yn ymwneud â gwaith prosiect Archwilio Cymru sy'n gweithredu cau cyfrifon yn gynnar gyda chyrff Llywodraeth Leol, a gwblhawyd yn 2020-21.[104]

**116.** Ac eithrio'r cyllid NFI, cyfanswm yr adnoddau refeniw a chyfalaf y gofynnir amdanynt yw £8.1 miliwn - yr un fath ag yn 2020-21.[105]

**117.** Cyllideb gyffredinol Archwilio Cymru yw £22.2 miliwn (gan gynnwys incwm ffioedd ac eithrio cyllid NFI). Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o £337,000 o'i gymharu â 2020-21. O fewn hyn, mae disgwyl i incwm ffioedd gynyddu £457,000, gan adlewyrchu cynnydd o £646,000 mewn incwm ffioedd archwilio, sy'n cael ei wrthbwyso gan ostyngiad cyfanredol mewn ffioedd Archwilio Cronfeydd Amaethyddol ac Ardystio Grant o £189,000. Mae'r cynnydd mewn ffioedd archwilio yn ymwneud â gwaith ychwanegol (yn hytrach na chyfraddau ffioedd uwch), gan gynnwys gwaith sy'n deillio o COVID-19.[106]

**118.** Wrth fynd i'r afael â sut mae COVID-19 wedi dylanwadu ar yr Amcangyfrif hwn, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod yn adlewyrchu rhai o'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig a natur newidiol y rhaglen waith archwilio y flwyddyn nesaf.[107] Parhaodd:

> "We've put it together, though, very mindful of two things. On the one hand, there are huge flows of public money going through the system at the moment and, with that, associated risk and an understandable increased appetite for risk within the public service, and the need for novel and innovative practice across the public sector. So, if ever there is a need for high-quality public audit, I would say it is right now and into next year. But in putting the estimate together, we've sought to balance that against the reality of the state of the public finances and

[103] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 7

[104] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 7

[105] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 7

[106] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalennau 14 a 17

[107] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd, paragraff 6

> the need for us to operate as an organisation in a prudent and an efficient way."[108]

**119.** Esboniodd yr Archwilydd Cyffredinol y bydd cynllunio manwl ar gyfer rhaglenni archwilio penodol yn cael ei wneud yng Ngwanwyn 2021, ond dywedodd ei bod yn deg tybio bod gwaith archwilio newydd a gwahanol y mae'n bwysig iddynt ei wneud y flwyddyn nesaf.[109]

**120.** Cyfeiriodd hefyd at drafodaeth a gafodd gyda'i swyddog cyfatebol yn Seland Newydd:

> "He has signalled to the public service there that he is anticipating that some of the audits that he undertakes in the public service in New Zealand will take up to 40 per cent longer, with a commensurate increase in cost. Now, I don't anticipate that we'll be seeing the same order of magnitude here, but I think it does give you a flavour for the fact that where there is greater risk, there is an important need for public audit."[110]

**121.** Esboniodd y Cadeirydd ei bod wedi dechrau ar ei dyletswyddau ar garlam ac wedi chwarae rhan lawn ar lefel bwrdd wrth lunio a chwblhau'r amcangyfrif, gan ychwanegu:

> "It's also my view that the estimate will enable us to do all the things we want to achieve. However, I'm also very clear that this is a prudent budget. It's going to be tight, and although I'm confident that we can make this work, it will not be easy by any means."[111]

## Arbedion

**122.** Dywed yr Amcangyfrif fod Archwilio Cymru wedi gosod "targedau arbedion heriol o ran rheoli swyddi gwag a meysydd gwariant eraill".[112]

---

[108] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd, paragraff 8

[109] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd, paragraff 10

[110] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd, paragraff 11

[111] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd, paragraffau 14 ac 16

[112] Rhan 1 - Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, Rhagair

**123.** Mae'r Amcangyfrif yn cynnwys targed arbedion o £400,000 ynghyd â £911,000 o arbedion o reoli swyddi gwag. Mae'r targed arbedion hwn £76,000 yn is na 2020-21, er bod disgwyl i arbedion o reoli swyddi gwag gynyddu £45,000.[113]

**124.** Mae'r Amcangyfrif hefyd yn cyfeirio at yr astudiaeth cynllun teithio VFM a gynhaliwyd gan RSM (a drafodir ym Mhennod 3), gan nodi bod y Bwrdd wedi gosod targed i arbed £1 miliwn dros bum mlynedd o'r adolygiad hwn.[114]

**125.** Amcangyfrifir y bydd costau teithio a chynhaliaeth yn gostwng £236,000 ar gyfer 2021-22 ac mae disgwyl i gostau'r lwfans teithio gynyddu £34,000.[115]

**126.** Mae gan Archwilio Cymru brosiect ar y gweill hefyd i adolygu ei ofynion gweithle yn y dyfodol - archwilio anghenion llety yn y dyfodol unwaith y bydd prydlesi presennol yn dod i ben yn 2023. Mae'r Amcangyfrif yn nodi bod y Bwrdd wedi gosod targed i arbed £1 miliwn pellach ar gyfer y gweithgaredd hwn.[116]

**127.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y bydd y targed o £400,000 o arbedion ychwanegol yn anodd ac na fydd yn cael ei gyflawni trwy ostyngiadau mewn teithio a chynhaliaeth yn unig. Ochr yn ochr â rhagdybiaeth weithredol y bydd 50 y cant yn llai o deithio y flwyddyn nesaf, gofynnir i ddeiliaid cyllideb adolygu cyllidebau nad ydynt yn gyflogau y gwanwyn nesaf a bydd arbedion effeithlonrwydd yn parhau i gael eu ceisio trwy ailasesu'r gymysgedd sgiliau ar gyfer archwilio a thrwy gynyddu'r defnydd o dechnoleg.[117]

**128.** Yn ystod 2020-21, mae Archwilio Cymru wedi cwblhau'r broses o drosglwyddo gwaith a wnaed yn flaenorol gan gwmnïau'r sector preifat fel bod yr holl waith archwilio yn cael ei wneud yn fewnol. Mae'r Amcangyfrif yn nodi "arbedion effeithlonrwydd maint sylweddol" o'r newid hwn.[118]

---

[113] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 17

[114] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 5

[115] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 17

[116] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 5

[117] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd, paragraff 23

[118] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 6

**129.** Er iddo gael ei wrthbwyso'n rhannol trwy ddileu costau cwmnïau'r sector preifat, sef £598,000, amcangyfrifir y bydd costau staff yn cynyddu £969,000 yn 2021-22.[119] Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y cynnydd arall yn gostau staff mwy cyffredinol, fel cynyddrannau cyflog.[120]

**130.** Mae Archwilio Cymru hefyd yn nodi arbedion blynyddol o £75,000 sydd eisoes yn cael eu cyflawni o roi swyddogaethau cyflogres ac archwilio mewnol ar gontractau allanol. Disgwylir i adolygiad gael ei gynnal yn 2021-22 o'r ddarpariaeth gyflogres i "benderfynu ai hyn yw'r ateb mwyaf effeithiol o ran cost o hyd".[121]

**131.** Eglurodd y Pennaeth Cyllid y bydd y gyflogres yn parhau i gael ei darparu gan ffynhonnell allanol ond eu bod o'r farn eu bod wedi gweld cyfle i sicrhau hyd yn oed mwy o effeithlonrwydd trwy ei rhoi ar gontract allanol mewn ffordd ychydig yn wahanol.[122]

## Cyllideb refeniw

### Gwaith archwilio sy'n cael ei ariannu heblaw drwy ffioedd

**132.** Yn 2020-21, gwnaeth Archwilio Cymru gynnwys darpariaeth i newid £180,000 o adnoddau archwilio o ffioedd i gyllid Cronfa Gyfunol Cymru, i gryfhau cefnogaeth i graffu ac i ganiatáu i Archwilio Cymru wneud darnau o waith blynyddol i archwilio themâu sy'n codi o waith cyfrifon. Defnyddiwyd yr adnodd hwn i gynhyrchu ffeithluniau sy'n gysylltiedig â data allweddol ar waith cyfrifon a sylwebaeth ychwanegol ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gyfrifon Llywodraeth Cymru.[123]

**133.** Nododd yr Archwilydd Cyffredinol y bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer mwy o'r un gwaith, gan egluro bod y cyllid yn 2020-21 wedi darparu nifer o ffeithluniau a chynhyrchion data ar y we, gan ddarparu gwell dealltwriaeth ac

---

119 Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 17

120 Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd, paragraff 20

121 Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 6

122 Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd, paragraff 33

123 Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 8

eglurder ynghylch cyflwr cyfrifon y GIG ac ynghylch y sefyllfa i awdurdodau lleol a'r sector ehangach.[124]

**134.** O ran monitro effaith y cynhyrchion hyn i sicrhau eu bod yn cynrychioli gwerth am arian, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

> "We're getting a lot of feedback, based on the website hits and so on, that suggests these are being used. We've had very positive feedback from those who are charged with governance within those individual parts of the public service who themselves have found it of value—so, audit committees and the like are making use of this to increase their own understanding of the financial health of different parts of the public service. I certainly believe that there is very definitely value for money to be derived from this, because I am privileged to have a line of sight on all of the work that sits beneath our accounts work. It is there to provide you with assurance that public money is being well used and well managed."[125]

## Cyfraniad at gostau rhedeg

**135.** Mae'r cyllid hwn yn gysylltiedig â chostau i Archwilio Cymru nad ydynt yn cael eu trosglwyddo trwy ffioedd i gyrff a archwilir, megis cymorth technegol, sicrhau ansawdd, dysgu a datblygu staff, a llywodraethu.[126]

**136.** Yn 2021-22, mae'r categori hwn yn cynnwys cyllid i ganiatáu i ddau brosiect (Dadansoddeg Data a Seiberddiogelwch) drosglwyddo i 'busnes yn ôl yr arfer' (roedd y rhain wedi'u cynnwys o'r blaen yn y categorïau rhaglen Newid a 'cefnogi Swyddfa Archwilio Cymru').[127]

**137.** O 2021, bydd costau Dadansoddeg Data yn cael eu hariannu o gyfuniad o ffioedd a Chronfa Gyfunol Cymru. Nid yw'r Amcangyfrif yn nodi faint o adnoddau

---

[124] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd, paragraffau 14 ac 16

[125] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd, paragraff 38

[126] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 8

[127] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 9

a ddefnyddir i gyd ar gyfer Dadansoddeg Data ar gyfer 2021-22 na'r gyfran i'w hariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru.[128]

**138.** Dywed yr Amcangyfrif mai Archwilio â Chymorth Dadansoddeg yw'r prif brosiect sy'n cael ei ystyried o ran gwaith archwilio cyfrifon ariannol ac mae ganddo "y potensial sylweddol i gynhyrchu effeithlonrwydd". Â ymlaen i ddweud y gallai hyn leihau costau archwilio 5-10 y cant.[129]

**139.** Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol yr amcangyfrifir y bydd y prosiect Dadansoddeg Data yn sbarduno arbedion effeithlonrwydd gwerth oddeutu 5-10 y cant o'r ffioedd archwilio unwaith y gall Archwilio Cymru gael mynediad at lefelau sylweddol o ddata yn uniongyrchol gan gyrff a archwilir, yn enwedig yn ei waith archwilio cyfrifon. Fodd bynnag, pwysleisiodd nad sicrhau arbedion effeithlonrwydd oedd unig nod Dadansoddeg Data a'i bod hefyd yn gwella ansawdd, cadernid a chyfathrebu'r gwaith archwilio hwn.[130]

**140.** Ar y penderfyniad i drosglwyddo'r tîm Dadansoddeg Data i "busnes yn ôl yr arfer", esboniodd y Pennaeth Cyllid:

> "The board considered a business case back in the summer looking at the current make-up of the data analytics team and the specialist software that they use and agreed that, going forward, we would pass just under 70 per cent of those costs on through our fees as an overhead on our fee rates, with the balance being met as a contribution from the consolidated fund. That's based on our overall spending split of about 38 per cent consolidated fund and 62 per cent coming from fees."[131]

**141.** Mae'r Amcangyfrif hefyd yn manylu ar brosiect i ddisodli System Rheoli Archwiliadau Ariannol presennol Archwilio Cymru gyda SharePoint yn 2021-22. Mae hyn yn cael ei ddatblygu mewn ymateb i brinder systemau addas yn y farchnad. Ni nodir unrhyw fanylion am y costau cysylltiedig.[132]

---

[128] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 9

[129] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 5

[130] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd, paragraffau 42-43

[131] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd, paragraff 44

[132] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 6

## Ariannu er lles y sector cyhoeddus ehangach

**142.** Mae'r Amcangyfrif yn cynnwys cyllid o £1.23 miliwn ar gyfer mentrau "wedi eu llunio er lles y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru". Mae'r Amcangyfrif yn adlewyrchu gostyngiad o'i gymharu â 2020-21, yn ymwneud yn bennaf â'r gostyngiad blynyddol yng nghostau NFI.[133]

**143.** Ers 2015, mae'r Pwyllgor wedi cefnogi cyfranogiad yn yr NFI ar gyfer pob corff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Amcangyfrif yn cynnwys gostyngiad o £80,000 sy'n gysylltiedig â'r cynllun NFI bob yn ail flwyddyn. Gofynnodd Archwilio Cymru am £130,000 yn 2020-21 at y dibenion hyn. Mae'n nodi hefyd fod Swyddfa Cabinet y DU wedi cyflwyno tâl blynyddol o £1,200 i bob sefydliad sy'n cymryd rhan, sydd wedi cynyddu costau blynyddol o £50,000 i £100,000 a £230,000 bob yn ail flwyddyn (ac mae'n cyfrif am y gostyngiad o £80,000 yn hytrach na £130,000 ar gyfer 2021-22).[134]

## Rhaglen newid

**144.** Mae Archwilio Cymru wedi cynnwys costau o £238,000 sy'n gysylltiedig â'i raglen newid, gan nodi eu bod wedi ymgymryd â "nifer o brosiectau trawsnewid llwyddiannus" ers 2016. Mae rhai o'r prosiectau hynny bellach wedi trosglwyddo i fod yn 'busnes yn ôl yr arfer' (e.e. Dadansoddeg Data).[135]

**145.** Bydd gwaith sy'n gysylltiedig â chau cyfrifon llywodraeth leol yn gynnar yn cael ei gwblhau yn 2020-21, felly, mae'r Amcangyfrif yn cynnwys gostyngiad o £120,000 yn y maes hwn ar gyfer 2021-22.[136]

**146.** Dywed yr Amcangyfrif fod Archwilio Cymru wedi newid y ffordd y mae'n rheoli newid trawsffurfiadol yn ddiweddar, gyda "Rhaglen Newid gydlynol yn cael ei goruchwylio gan y tîm uwch yn gweithredu fel Bwrdd Rhaglen Newid". Mae Archwilio Cymru yn awgrymu bod hyn yn cryfhau ei drefniadau llywodraethu. Ymhlith y prosiectau ar gyfer 2021-22 mae:

[133] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalennau 10-11

[134] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddynyn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 11

[135] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 11

[136] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 11

- 'Gweithleoedd y Dyfodol': Erbyn 2023 bydd prydlesi yn y tri adeilad swyddfa y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn eu meddiannu naill ai i'w hadnewyddu neu'n dod i ben. Mae'r Bwrdd wedi gosod targed arbedion o £200,000 y flwyddyn. Mae'r Amcangyfrif yn nodi y bydd cynigion buddsoddi yn cael eu darparu yn amcangyfrif y flwyddyn nesaf.
- 'Archwilio Cyfrifon 2022': Bydd y prosiect hwn yn disodli platfform archwilio cyfredol Archwilio Cymru, y mae'r contract ar ei gyfer yn dod i ben yn 2022. Mae system fewnol a ddatblygir trwy SharePoint yn cael ei datblygu. Bydd y system newydd ar gael i'w defnyddio erbyn Hydref 2022.
- 'Ein Strategaeth Ddigidol': Mae'n cynnwys 'sawl prosiect piblinell' wedi'u targedu at arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol. Mae'n cynnwys gwella'r system rheoli archwilio perfformiad, systemau adnoddau a chofnodi amser ac ail-gaffael y ddarpariaeth cyflogres.[137]

**147.** Pan ofynnwyd iddo a gynhaliwyd dadansoddiad cost/budd o'r prosiectau a amlinellir yn y rhaglen newid, eglurodd Cadeirydd y Bwrdd:

> "We've been very keen as the board to improve our approach to change management, particularly as this was identified as an area for improvement within previous staff survey results, recognising that we need that coherent approach for implementation across Audit Wales, together with improving the pace of change. In driving improvements to the governance of change initiatives, a standardised approval framework has been introduced, ensuring that the strategic viability, resourcing and the costs and benefits are re-evaluated at key decision-making points throughout the life cycle of the project, so not just at the point of approving the business case."[138]

## Gwariant cyfalaf

**148.** Mae Archwilio Cymru yn gofyn am gynnydd o £120,000 mewn cyllid cyfalaf, o £230,000 yn 2020-21 i £350,000 yn 2021-22. Nodwyd y cynnydd hwn yn Amcangyfrif y llynedd, a oedd hefyd yn amlinellu cynnydd pellach i £800,000 yn

[137] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 11

[138] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd, paragraff 49

2022-23 a gofyniad cyfalaf o £550,000 yn 2023-24 a 2024-25 (ailadroddwyd yn Amcangyfrif 2021-22).[139]

**149.** Mae'r cyllid cyfalaf a geisir yn cynnwys £200,000 ar gyfer rhaglen newid Archwilio Cymru (a oedd yn arfer cael ei rannu rhwng categorïau gwariant 'Systemau Corfforaethol' a'r Strategaeth Ystadau).[140]

**150.** Fel y nodwyd yn Amcangyfrif y llynedd, mae £150,000 wedi'i gynnwys ar gyfer 'Strategaeth TGCh'. Mae'r strategaeth hon yn rhaglen dreigl sefydledig o adnewyddu cyfarpar CP/TG. Mae Archwilio Cymru yn nodi ei fod wedi "cynyddu'r dyraniad ar gyfer y flaenoriaeth hon o 2021-22 i sicrhau ein bod yn gallu gwneud y defnydd gorau o welliannau mewn technoleg i gefnogi ein huchelgais yn y strategaeth ddigidol". Mae'r Amcangyfrif hefyd yn nodi bod angen mwy o fuddsoddiad (gan gynnwys mewn cyfarpar) i ganiatáu i fwy o staff weithio o bell ac mae ganddo gysylltiad agos â'r prosiect 'Gweithleoedd y Dyfodol'.[141]

**151.** Mewn perthynas â'r rhaglen gyfalaf TGCh, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol mai'r strategaeth yw:

> "…to enable our staff to work as flexibly as possible and to reduce our reliance on directly hosted services and move to cloud-based services wherever possible. Our experience over the last six, eight months I think has both shown the wisdom of that approach in previous years but has also accelerated us further down that path. So, some of what is reflected there is a continuous ongoing need that any organisation will have to keep its ICT infrastructure up to date and replaced year on year, to some degree."[142]

## Newidiadau posibl yn Amcangyfrif 2021-22

**152.** Mae Archwilio Cymru yn nodi tri ffactor a allai arwain at newid yn ei Amcangyfrif:

---

[139] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 12

[140] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 12

[141] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 13

[142] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd, paragraff 49

- **Chwyddiant cyflogau a phrisiau**: Os digwydd bod pwysau chwyddiant lawer yn fwy na darogan Swyddfa Cyfrifoldeb y Gyllideb, ac efallai y byddai angen inni edrych eto ar hyn gyda'r Pwyllgor.

- **Incwm ffioedd**: Nodir bod cryn ansicrwydd yn amcangyfrifon Archwilio Cymru ar gyfer gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19 ar hyn o bryd. Os na ellir rheoli maint y gwaith hwn o fewn yr Amcangyfrif arfaethedig, mae Archwilio Cymru yn nodi y byddai angen iddo fynd yn ôl at y Pwyllgor Cyllid i addasu faint o adnoddau cronnus y gall eu defnyddio.

- **Safonau adrodd newydd**: Bydd IFRS 16 yn cael ei gyflwyno o 2020-21 ymlaen. Nid yw hyn yn cael effaith sylweddol ar Archwilio Cymru, felly nid oes angen addasiadau ar gyfer 2021-22. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd newid i ofynion cyfalaf yn 2022-23 os ymrwymir i gytundebau newydd ar gyfer llety swyddfa pan ddaw'r brydles ar yr adeiladau presennol i ben.[143]

**153.** O ran yr ansicrwydd ynghylch incwm ffioedd, esboniodd y Pennaeth Cyllid:

> "…the biggest reason we would be looking to change the estimate next year is if we find out that we've actually got to do a lot more fee-earning work. So, we wouldn't be looking necessarily for additional money from the consolidated fund, but we'd want to increase our fee income estimates to allow us to identify the resources to deliver that additional work."[144]

## Cynllun Ffioedd Drafft

**154.** Yn gyffredinol, mae Archwilio Cymru wedi cynnwys cynllun ffioedd drafft fel atodiad i'w Amcangyfrif. Fodd bynnag, mae'n nodi bod y pandemig wedi ei atal rhag gwneud hynny eleni. Mae'n nodi:

> "Mae'r gofyniad cyfreithiol i ymgynghori ar ffioedd ar gyfer cyrff Llywodraeth Leol cyn cynnwys y rhain yn y Cynllun Ffioedd, ynghyd â chanlyniadau'r pandemig COVID-19, yn golygu nad yw'r amseru wedi caniatáu i hyn gael ei gynnwys ar gyfer 2021-22.

[143] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 15

[144] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd, paragraff 74

> Yn hytrach, byddwn yn ymgynghori'n eang am y ffioedd a gynigiwn pan fydd yr Amcangyfrif hwn wedi ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid, ac yna byddwn yn cyflwyno'n Cynllun Ffioedd i'r Pwyllgor Cyllid ei ystyried ddechrau 2021."[145]

**155.** Er nad yw Archwilio Cymru yn disgwyl y bydd unrhyw gynnydd yn ei gyfraddau ffioedd ar gyfer 2021-22, mae'n nodi cynnydd disgwyliedig mewn ffioedd o £457,000 o'i gymharu â 2020-21:

> "… yn adlewyrchu codiadau disgwyliedig ym maint y gwaith archwilio y bydd angen inni ei wneud yn y flwyddyn honno gan gyrff newydd a gaiff eu harchwilio a gwaith ychwanegol sy'n deillio yn gysylltiedig â gwariant COVID-19 ychwanegol yn 2020-21."[146]

**156.** Mae'r cynnydd mewn ffioedd archwilio yn cynnwys cynnydd o £646,000 mewn incwm Ffioedd Archwilio, gostyngiad o £109,000 mewn Archwilio Cronfeydd Amaethyddol yr UE a gostyngiad o £80,000 mewn ffioedd Ardystio Grantiau.[147]

**157.** Wrth drafod y penderfyniad a wnaed i ohirio ymgynghoriad yr haf ar y cynllun ffioedd drafft, dywedodd Cadeirydd y Bwrdd:

> "Clearly, at that time, we did not want to overburden public bodies, and the board considered that that wasn't really a priority, either for ourselves or for public bodies at that point, and, whilst we have to lay a fee scheme annually, we can be flexible about when we do this. Therefore, given the pandemic, the board agreed to carry out the consultation later in the year, which meant it would be after the Finance Committee had considered the estimate. But, of course, once the consultation has been completed, we will lay our fee scheme for Finance Committee consideration early in 2021. It is just worth noting, as Adrian said earlier, that, as set out in the estimate, we anticipate that

---

[145] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 14

[146] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 14

[147] Rhan 2 - Gwybodaeth ategol ar gyfer Amcangyfrifon o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, tudalen 17

this will be on the basis of no increase in either our fee rates or our fee scales."[148]

## Barn y pwyllgor

**158.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r newid yn y ffordd y cyflwynir yr Amcangyfrif, sy'n gwahanu'r naratif ar ddyraniadau'r gyllideb oddi wrth gwmpas y gyllideb sy'n ofynnol i gydymffurfio â Rheolau Sefydlog y Senedd.

**159.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn canmol y dull darbodus a gymerwyd wrth baratoi'r Amcangyfrif hwn ac yn nodi dull Archwilio Cymru o gyflawni arbedion.

**160.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y pandemig wedi arwain at fwy o ffocws ar sefyllfa cyllid cyhoeddus, gan dynnu sylw at arwyddocâd gwaith Archwilio Cymru. Gan nodi na fydd rhaglen waith 2021-22 yn cael ei chynllunio'n fanwl tan y Gwanwyn, mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddeall sut mae'r rhaglen waith yn datblygu.

**161.** Nodir y posibilrwydd y bydd angen cyllideb atodol o ystyried yr ansicrwydd ynghylch gwaith â ffioedd ac mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod hyn y tu hwnt i reolaeth Archwilio Cymru.

**162.** Wrth nodi y bydd y ddarpariaeth i newid adnoddau archwilio o ffioedd i gyllid Cronfa Gyfunol Cymru (fel y cytunwyd y llynedd) yn cael ei defnyddio i ddarparu "mwy o'r un peth" yn 2021-22, hoffai'r Pwyllgor gael gwell dealltwriaeth o sut y bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio.

**163.** Mae'r Pwyllgor yn nodi strategaeth Archwilio Cymru i wneud gwaith sector preifat yn fewnol a'r arbedion cost o £598,000 a nodwyd yn yr Amcangyfrif. Fodd bynnag, nodir hefyd gostau staff uwch o £969,000 yn 2021-22. Felly, mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn cael dadansoddiad o'r costau staff hyn ac mae'n awyddus i ddeall pa arbedion effeithlonrwydd y mae Archwilio Cymru yn disgwyl eu gwneud o ddod â gwaith yn fewnol.

**164.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r penderfyniad a gymerwyd i drosglwyddo'r prosiect Dadansoddeg Data i fod yn 'busnes yn ôl yr arfer', gydag ychydig llai na 70 y cant o'r costau'n cael eu trosglwyddo trwy ffioedd. Fodd bynnag, nid yw'r Amcangyfrif yn nodi faint o adnoddau a ddyrennir i Ddadansoddeg Data.

[148] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 2 Tachwedd, paragraff 78

**165.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r penderfyniad a gymerwyd gan y Bwrdd i ohirio'r ymgynghoriad ar ei gynllun ffioedd drafft o ystyried y pwysau dybryd y mae cyrff cyhoeddus yn ei wynebu wrth ymateb i'r pandemig. Wrth nodi na fydd y Pwyllgor yn cael ei wahodd i ystyried a chymeradwyo'r cynllun ffioedd tan ddechrau 2021, croesewir yr arwydd nad yw cyfraddau ffioedd a graddfeydd yn debygol o gynyddu.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu diweddariad ar arbedion ac effeithlonrwydd yn dilyn yr adolygiad o gyllidebau heblaw rhai cyflog yng Ngwanwyn 2021.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y darperir gwybodaeth bellach am lefel yr arbedion y mae Archwilio Cymru yn ceisio eu cyflawni wrth roi ei swyddogaeth gyflogres ar gontract allanol mewn ffordd wahanol.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ddiweddariad ar ddatblygiad rhaglen waith Archwilio Cymru ar gyfer 2021-22, gan gynnwys unrhyw effaith y bydd hyn yn ei chael ar yr Amcangyfrif.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu mwy o fanylion ar sut y bydd yr adnodd o £180,000, a newidiwyd yn 2020-21 o ffioedd i gyllid Cronfa Gyfunol Cymru, yn cael ei ddefnyddio yn 2021-22.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu nodyn ar yr effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â dod â gwaith archwilio yn fewnol a sut mae hyn wedi effeithio ar gostau staff Archwilio Cymru.

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn cadarnhau ei gyllideb ar gyfer Dadansoddeg Data yn 2021-22, gan gynnwys dadansoddiad o'r cyllid o incwm ffioedd a Chronfa Gyfunol Cymru.

**Casgliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ag Amcangyfrif 2021-22, sydd ynghlwm yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

# Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| 21 Medi 2020 | **Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru**<br>Archwilio Cymru<br>**Isobel Everett, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**<br>Archwilio Cymru<br>**Kevin Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol**<br>Archwilio Cymru |
| 2 Tachwedd 2020 | **Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru**<br>Archwilio Cymru<br>**Lindsay Foyster, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**<br>Archwilio Cymru<br>**Nicola Evans, Pennaeth Cyllid**<br>Archwilio Cymru |

Atodiad B

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022

Hydref 2020

Paratowyd ar y cyd a’i gyflwyno gerbron y Senedd dan Adran 20(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae Adran 20 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i’r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyd baratoi amcangyfrif o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru, a chyflwyno’r amcangyfrif hwnnw gerbron y Senedd o leiaf bum mis cyn dechrau’r flwyddyn ariannol y mae’n cyfeirio ati.

Yn unol ag Adran 20 o’r Ddeddf, rhaid i bob amcangyfrif gwmpasu (ymhlith pethau eraill) yr adnoddau sy’n angenrheidiol i’r Archwilydd Cyffredinol ymarfer ei swyddogaethau statudol.

Gall Pwyllgor Cyllid y Senedd wneud unrhyw newidiadau yn yr amcangyfrif yr ystyria’u bod yn briodol, ond ni ellir gwneud dim newidiadau oni fydd:

- ymgynghori wedi bod â’r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru; ac
- oni fydd unrhyw sylwadau a wneir gan y naill neu’r llall wedi eu cymryd i ystyriaeth.

Rhaid i Weinidogion Cymru bob blwyddyn wneud cynnig yn y Senedd dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy’n cynnwys awdurdodi’r adnoddau sydd i’w defnyddio (gan gynnwys adnoddau cronnus) a thaliadau a wneir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae’r Amcangyfrif hwn yn nodi’r symiau i’w cynnwys mewn cysylltiad â Swyddfa Archwilio Cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau teleffon yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn achosi oedi.

Mae’r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg.

# Cynnwys

Rhagair 4

Cwmpas Cyllideb 2021-22 6

# Rhagair

Mae Archwilio Cymru yn bodoli i roi i'r Senedd a phobl Cymru yr hyder mewn sector cyhoeddus sy'n perfformio'n dda ac yn atebol.

Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Cyllid rydym wedi symleiddio ffurf ein Hamcangyfrif am 2021-22 yn sylweddol. Ein Hamcangyfrif yw Cwmpas y Gyllideb a gynhwysir yn y ddogfen hon. Byddwn yn darparu ar wahân wybodaeth gefnogi am yr Amcangyfrif er mwyn i'r Pwyllgor Cyllid ddeall sut y byddwn yn defnyddio'r arian y gofynnir amdano.

Gosodwyd allan yr ansicrwydd digynsail ynglŷn â'r ariannu sydd ar gael yn y dyfodol gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn ei llythyr ar 11 Awst 2020. Rydym yn cydnabod hyn, ac yn ymateb drwy leihau ein galw ar ariannu refeniw WCF £120,000 yn 2021-22, ynghyd â £80,000 yn ychwanegol, sef y gostyngiad dwy-flynedd yn yr ariannu ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol. At hynny, rydym yn cydnabod y pwysau anghyffredin ar y cyrff rydym yn eu harchwilio, ac rydym yn ymateb drwy gynnig peidio â chynyddu cyfraddau ein ffioedd yn 2021-22.

Gyda'r cynnydd anferth mewn gwariant cyhoeddus i ymateb i'r pandemig COVID-19 byd-eang, bydd ein gwaith yn bwysicach nag erioed. Mae ein Hadroddiad Dros Dro yn nodi sut rydym wedi ymateb i'r her hon yn 2020-21 – mae'r Amcangyfrif hwn yn esbonio sut y bwriadwn ddefnyddio cyllid sydd wedi ei gytuno gan y Senedd i gefnogi ein gwaith yn y dyfodol.

Mae ein rhaglen eang o waith gwerth yr arian yn hanfodol ar gyfer atebolrwydd cadarn gan y Senedd drwy ei Phwyllgorau Cyhoeddus, Cyllid a Phwyllgorau eraill. Rydym yn archwilio cyfrifon a llywodraethiant dros 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru, gan ddarparu'r prif ddull sicrwydd am y ffordd y mae arian cyhoeddus yng Nghymru'n cael ei reoli. O Lywodraeth Cymru ei hun i'r cyngor cymuned lleiaf, drwy bron bob maes sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus, gall yr Archwilydd Cyffredinol ddilyn y bunt gyhoeddus ble bynnag y caiff ei gwario.

Rydyn ni'n ymwybodol tu hwnt o'n cyfrifoldeb i rannau eraill o'r sector cyhoeddus i gadw gafael ar ein costau gweithredu ein hunain a'r ffioedd a godwn, cyn belled nad yw hynny'n peryglu ansawdd archwilio a'r sicrwydd y gallwn ei roi. Mae ein gwybodaeth gefnogi yn nodi manylion am ein rhaglen ein hunain i sicrhau gwerth yr arian a'r targedau arbedion a gaiff eu pennu gan y Bwrdd i ariannu ein rhagolwg ariannol dros y cyfnod canolig.

Yn 2021-22 rydym wedi gosod targedau arbedion heriol o ran rheoli swyddi gwag a meysydd gwariant eraill gan gynnwys ein costau teithio. Bydd hyn yn anodd ei gyflawni, ond bydd yn golygu y gallwn gyflawni ein huchelgais tra byddwn yn gostwng ein galw ar WCF ac yn cynnwys y ffioedd a godwn ar gyrff sy'n cael eu harchwilio.

Mae’r Pwyllgor Cyllid yn y gorffennol wedi cefnogi ein cynigion trawsnewid uchelgeisiol, gan gynnwys ein symudiad i wneud mwy o ddefnydd o Ddadansoddeg Data yn ein gwaith. Mae ein dogfen gefnogi yn nodi’r ffordd rydym wedi trosglwyddo’r gwaith hwn i fod yn ‘fusnes yn ôl yr arfer’, a’r ffordd rydym wedi sefydlu Rhaglen Newid ffurfiol i yrru ymlaen y gwelliannau a’r effeithlonrwydd pellach yn y ffordd rydym yn gweithio.

Mae ein Hadroddiad a’n Cyfrifon Blynyddol yn nodi ein cofnod o lwyddiant am y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ym mis Mawrth eleni cyflwynwyd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2020-21 i’r Senedd. Mae’r Amcangyfrif hwn yn sicrhau cyllid ar gyfer ein blaenoriaethau i ddod yn 2021-22, ac wedyn caiff ein Cynllun Blynyddol am y flwyddyn hon ei gyflwyno i’r Senedd ym mis Mawrth 2021.

Edrychwn ymlaen at drafod ein Hamcangyfrif gyda Phwyllgor Cyllid y Senedd.



**Lindsay Foyster**
Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Cwmpas y Gyllideb 2021-22

## Amcangyfrif o ofynion cyllideb Swyddfa Archwilio Cymru am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022

1 Dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, rhaid i Weinidogion gyflwyno cynnig yn y Senedd i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a thynnu arian parod o'r gronfa WCF ar gyfer personau perthnasol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

2 Mewn cysylltiad â gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022, bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi:

- swm yr adnoddau y gellir eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol gan Swyddfa Archwilio Cymru (yn unol â'r gyllideb am y flwyddyn);
- swm yr adnoddau yn cronni i Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn ariannol ac y gellir ei gadw yn hytrach na'i dalu i'r gronfa WCF; a
- y swm y gellir ei dalu allan o WCF i Swyddfa Archwilio Cymru.

3 Mae crynodeb o'r gofynion hyn, na allant fod yn ddim ond amcangyfrifon oherwydd amrywioldeb y ffrydiau incwm, i'w weld yn **Eitem 1**.

4 Mae manylion wedi eu nodi yn ein gwybodaeth gefnogi am y ffordd y bwriadwn ddefnyddio'r arian hwn i ddarparu archwilio cyhoeddus yng Nghymru yn 2021-22.

### Eitem 1: crynodeb o'r amcangyfrif o ofynion cyllideb 2021-22

| | £'000 |
|---|---|
| Adnoddau, ar wahân i adnoddau cronnus, i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol, ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru: | |
| • Refeniw | 7,798 |
| • Cyfalaf | 350 |
| Adnoddau cronnus o ffioedd a thaliadau am archwilio, ardystio grantiau a gwasanaethau cysylltiedig; adennill costau eraill yn gysylltiedig â swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Swyddfa Archwilio Cymru; incwm amrywiol megis o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol, ac adennill costau a dynnir ar gyfer trydydd parti - i gyd i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol ac ar wasanaethau cysylltiedig â gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | 14,461 |
| Gofynion arian parod net o'r gronfa WCF ar gyfer symiau net sydd i'w talu yn y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. | 8,368 |

5 Mae **Eitem 2** yn cysoni cyfanswm cais Swyddfa Archwilio Cymru am adnoddau â'i gofynion arian parod net am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2022.

### Eitem 2: cysoni gofynion adnoddau â gofynion codi arian parod o'r gronfa WCF

| | £'000 |
|---|---|
| Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf | 8,148 |
| Cymhwysiad heblaw arian parod – gostyngiad gwerth | (280) |
| Cymhwysiad heblaw arian parod – symudiadau mewn cyfalaf gweithio | 500 |
| Gofyniad arian parod net o'r gronfa WCF i dalu'r symiau net sydd i'w talu yn y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru | 8,368 |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru